

Arolwg Defnydd Llety Cymru 2009 Adroddiad Terfynol

JN: 191175

Dyddiad Mai 2010



Arolwg Defnydd Llety Cymru 2009

Adroddiad Terfynol

Croeso Cymru

Dyddiad Mai 2010

Paratowyd gan:

TNS-RI Travel and Tourism

19 Atholl Crescent
Caeredin/Edinburgh, EH3 8HQ

Ffôn: 0131 656 4000
Ffacs: 0131 656 4001
e-bost: enquiries@tns-ri.co.uk

191175

Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol	1
2. Cyflwyniad a Methodoleg	12
3. Gwestai	18
4. Tai Llety a Sefydliadau Gwely a Brecwast	32
5. Pob Llety â Gwasanaeth	42
6. Bythynnod a Fflatiau Hunanddarpar	46
7. Cartrefi Gwyliau Carafan a Chabannau	59
8. Carafannau Teithiol a Pharciau Gwersylla	66
9. Hostelau a Thai Bynciau	74
Atodiad 1: Gwestai	81
Atodiad 2: Tai Llety a Sefydliadau Gwely a Brecwast	86
Atodiad 3: Pob Llety â Gwasanaeth	91
Atodiad 4: Llety Hunanddarpar.....	93
Atodiad 5: Ffurflenni Misol.....	96
Atodiad technegol.....	102

1. Crynodeb Gweithredol


Cynhaliwyd arolwg defnydd yn barhaus ers 1972 ymysg darparwyr llety gwesty wedi'i raddio i fonitro lefelau galw ar gyfer ystafelloedd a gwelyau gwestai yng Nghymru. I gydymffurfio gyda gofynion Cyfarwydddeb yr Undeb Ewropeaidd ar Ystadegau Twristiaeth, cafodd yr arolwg ei ymestyn yn 1997 i gynnwys pob llety â gwasanaeth yn cynnwys tai llety a sefydliadau gwely a brecwast, yn ogystal â llety â gwasanaeth heb raddiad.

Cynhaliwyd yr arolwg hunanddarpar mewn gwahanol fformatau ers 1987. Fodd bynnag, defnyddiwyd yr un fethodoleg a'r feddalwedd a ddefnyddiwyd i ddadansoddi'r data ers 2003. Mae'r arolwg yn cynnwys llety hunanddarpar, cartrefi gwyliau carafan, parciau carafannau teithiol a gwersylla. Ymhellach, yn 2008, ychwanegwyd hostelau a thai bynciau hefyd o fewn cwrpas yr arolwg.


Gwestai

Y cyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn 2009 oedd 42% a 58% yn yr un drefn, gostyngiad bach o 1% ar gyfer defnydd gwelyau a'r un gyfradd defnydd ystafelloedd â 2008. Mae'r cyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd wedi parhau'n gymharol gyson ers 2003.

Ffigur 3-1 – Gwestai – Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd – Cyfartaleddau Blynyddol (%)




Cyflwynir y cyfraddau misol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd gyda'r cyfartaleddau blynyddol a gofnodwyd yn y sector gwestai yn 2009 yn Ffigur 3-2 trosodd.

Ffigur 3-2 – Gwestai – Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd – 2009 (%)

Mae'r cyfraddau defnydd a gofnodwyd yn 2009 yn adlewyrchu natur dymhorol y sector gwestai, gyda chyfradd gyfartalog defnydd gwelyau yn 26% ym mis Ionawr, gan gynyddu i uchafbwynt o 56% yn ystod mis Awst (55%), cyn gostwng i 34% ym mis Rhagfyr. Mae'r tueddiad hefyd i'w weld yn y ffigurau cyfartalog ar gyfer defnydd ystafelloedd a gynyddodd o 40% ym mis Ionawr i 70% yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst, cyn gostwng i 47% ym mis Rhagfyr.

Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Mae Ffigur 3-3 islaw yn cyflwyno cyfraddau blynyddol cyfartalog defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob rhanbarth o Gymru.

Ffigur 3-3 – Gwestai – Cyfartaledd Cenedlaethol yn ôl Rhanbarthau Cymru – 2009 (%)

Yn 2009, cofnodwyd lefelau tebyg o ddefnydd gwelyau ar draws y rhanbarthau gyda thri o'r pump rhanbarth yn cofnodi cyfartaledd o 40%. Fel yn 2008, Canolbarth Cymru gofnododd y gyfradd isaf ar gyfer defnydd gwelyau, 4% yn is na'r cyfartaledd ar 38%.

Roedd mwy o amrywiad ar draws y rhanbarthau ar gyfer y gyfradd flynyddol defnydd ystafelloedd. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, sefydliadau yn y De Ddwyrain gofnododd rai o'r cyfraddau uchaf ar gyfer defnydd ystafelloedd, er i'r Gogledd gael cyfraddau cyfartal yn 2009, gyda'r ddau yn cofnodi 62%. Cofnododd De Cymru hefyd lefelau cyfartalog cymharol uchel ar

gyfer defnydd ystafelloedd o 59%. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, cofnododd Canolbarth Cymru lefel defnydd ystafelloedd ychydig yn is na'r cyfartaledd o 49%.

Canran Gwesteion Tramor

Fel y medrid disgwyl, roedd defnydd tramor ar ei uchaf yn ystod y prif dymor twristiaeth (mis Mai i fis Medi), gyda 5-6% wedi'i gofnodi ar gyfer gwesteion tramor yn ystod y misoedd hyn. Y canran isaf a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn oedd 2% ym mis Rhagfyr. Fodd bynnag cofnododd mis Ionawr lefelau defnydd tramor cymharol uchel o 5%, yr un canran â mwyafrif misoedd brig tymor yr haf. Roedd cyfran gyfartalog flynyddol gwesteion tramor yn 5%.

Canran Gwesteion Busnes

Roedd y cyfran cyfartalog blynyddol o westeion tramor yn 18%, gostyngiad o ddau bwynt canran ar y cyfradd a gofnodwyd yn 2008 ac yn ôl i lefelau 2007. Roedd rhai amrywiadau yn y canran o westeion busnes rhwng 2008 a 2009, yn fwyaf arbennig yn ystod misoedd Ionawr, Mawrth, Ebrill a Tachwedd. Mae'n debygol i gyfnod gwyliau'r Pasg effeithio ar fis Mawrth a mis Ebrill, gyda'r Pasg ym mis Mawrth yn 2008 a mis Ebrill yn 2009.

Defnydd yn ôl Maint Gwesty

Roedd perthynas cyffredinol gadarnhaol rhwng maint gwestai a lefelau defnydd. Cofnododd gwestai gyda dros 100 o ystafelloedd gyfradd defnydd gwelyau cyfartalog 17 pwynt canran yn uwch na'r gyfradd a gofnodwyd ar gyfer gwestai gyda 4-10 ystafell, ac roedd gwahaniaeth o 29 pwynt canran rhwng y cyfraddau defnydd ystafell cyfartalog a gofnodwyd gan westai yn y ddau fand maint hyn.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, medrai nifer o ffactorau fod wedi cyfrannu at y gydberthynas gadarnhaol gyffredinol yma. Mae gwestai mwy yn tueddu i fod ar agor drwy'r flwyddyn ac yn fwy tebygol o fynd ati i farchnata eu sefydliadau. Hefyd, mae llawer ohonynt wedi'u lleoli mewn dinasoedd a threfi mawr, gan eu gwneud yn fwy tebygol o fod â gwesteion busnes yn defnyddio ystafelloedd sengl.

Defnydd yn ôl Tariff

Fel y nodwyd mewn adroddiadau am flynyddoedd blaenorol, cofnodwyd perthynas gadarnhaol rhwng y tariff a godwyd a lefelau defnydd gwestai unwaith eto. Cofnododd sefydliadau a godai £60 neu fwy gyfradd gyfartalog defnydd gwelyau oedd 30 pwynt canran yn uwch na'r gyfradd a gofnodwyd gan rai'n codi £20-£29.99, tra bod gwahaniaeth o 42 pwynt canran rhwng y cyfraddau cyfartalog defnydd ystafelloedd a gofnodwyd ar gyfer gwestai yn y ddau fand tariff yma.

Defnydd yn ôl Lleoliad

Dadansoddwyd cyfraddau defnydd yn ôl lleoliad y gwesty - mewn dinas/tref fawr, tref fach, glan môr neu gwledig/pentref.

Yn yr un modd â chanfyddiadau blaenorol, yn 2009 cofnodwyd y lefelau cyfartalog uchaf ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd gan sefydliadau mewn dinasoedd a threfi mawr (47% a 69% yn yr un drefn). Gwestai mewn dinasoedd a threfi mawr hefyd gofnododd y gwahaniaeth mwyaf rhwng defnydd gwelyau ac ystafelloedd gan ddangos effaith twristiaeth busnes ar y sefydliadau hyn. O gymharu, gwestai mewn trefi bach gofnododd y cyfraddau cyfartalog isaf ar gyfer defnydd gwelyau (37%) a gwestai mewn ardaloedd gwledig a phentrefi y cyfraddau cyfartalog isaf ar gyfer defnydd ystafelloedd (52%). Y categori diwethaf hwn hefyd nododd y gwahaniaeth lleiaf rhwng cyfraddau defnydd gwelyau ac ystafelloedd o 12 pwynt canran, gan adlewyrchu y cyfrannau uwch o deithwyr hamdden (gyda lefelau uwch o ddefnydd fesul ystafell) yn aros mewn gwestai yn y lleoliadau hyn.

Defnydd yn ôl Graddiad


Ers 1999, cafodd cyfraddau defnydd gwestai eu dadansoddi yn ôl eu graddiad dan y Cynllun Graddiad Seren a weinyddir gan Croeso Cymru (gynt Bwrdd Croeso Cymru).

O fewn cynllun graddiad Croeso Cymru, roedd cydberthynas gadarnhaol rhwng cyfraddau defnydd gwelyau a'r cynllun graddiad. Y sefydliadau hynny gyda graddiad 5 seren gofnododd y cyfraddau defnydd uchaf gyda chyfraddau gwely rhwng 10-15% yn uwch, yn ogystal â chyfraddau ystafell 4-10% yn uwch na'r categorïau graddiad eraill.


Tai Llety a Sefydliadau Gwely a Brecwast

Defnydd Cyfartalog Blynnyddol Defnydd Ystafelloedd a Gwelyau

Yn gyffredinol, cofnodwyd cynnydd bychan o 1 y cant cyfraddau cyfartalog blynnyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn 2009, gan ddangos cynnydd mewn poblogrwydd mewn tripiau gwyliau domestig o fewn Cymru (a'r DU) yn ystod 2009. Roedd hyn yn dilyn gostyngiad amlwg rhwng 2007 a 2008, pan mai'n debygol i effaith y dirwasgiad economaidd a thywydd gwael yr haf gyfrannu at y gostyngiad yn y galw am y sector yma (gostyngodd cyfraddau defnydd gwelyau gan 4 pwynt canran rhwng 2007 a 2008). Mae cyfraddau defnydd yn y sector yma'n dal yn gymharol isel (yr isaf a gofnodwyd ers 2002), gan ddangos cyfnod anodd i'r sector tai llety a sefydliadau gwely a brecwast yng Nghymru.


Ffigur 4-1 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd – Cyfartaleddau Blynnyddol (%)*Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd*

Cyflwynir cyfraddau misol defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn y sector tai llety a gwely a brecwast yn Ffigur 4-2 islaw.

Ffigur 4-2 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd – 2009 (%)

Fel y nodwyd mewn blynnyddoedd blaenorol, mae natur dymhorol y sector yn amlwg gyda'r cyfraddau cyfartalog uchaf ar gyfer defnydd gwelyau mewn tai llety a sefydliadau gwely a brecwast yn ystod y prif dymor twristiaeth (mis Mai i fis Medi). Cynyddodd defnydd gwelyau yn hanner cyntaf y flwyddyn o 13% ym mis Ionawr, gan gyrraedd brig o 51% ym mis Awst cyn gostwng i 15% ym mis Rhagfyr. Y defnydd cyfartalog blynnyddol ar gyfer defnydd gwelyau oedd 30%.

Dilynodd lefelau defnydd ystafelloedd batrwm tebyg gyda chyfartaledd blynnyddol o 38%.

*Cyfraddau Defnydd yn ôl Rhanbarth***Ffigur 4-3 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – Cyfartaledd Blynnyddol yn ôl Rhanbarthau Cymru – 2009 (%)**

Roedd y lefelau defnydd gwelyau uchaf yn y De Orllewin (33%) gyda chyfraddau blynnyddol defnydd ystafelloedd ar eu lefel uchaf mewn dau ranbarth: y De a'r De Ddwyrain, gyda'r ddau yn nodi cyfradd defnydd o 40%. Fel mewn blynnyddoedd blaenorol, roedd lefelau defnydd yn y Canolbarth yn amlwg is, gan gofnodi 26% ar gyfer defnydd gwelyau a 33% ar gyfer defnydd ystafelloedd.

Y gwahaniaeth mwyaf rhwng y cyfraddau defnydd blynnyddol ar gyfer gwelyau ac ystafelloedd a gofnodwyd yn 2009 oedd ar gyfer sefydliadau yn Ne Ddwyrain Cymru lle mae'r gyfran o ddefnyddwyr busnes mewn ystafelloedd sengl yn debyg o fod yn uwch nag mewn rhanbarthau eraill.

Canran Gwesteion Tramor

Fel yn y tair blynedd ddiwethaf, cyrhaeddodd defnydd tramor uchafswm yn ystod mis Gorffennaf (17%) ac roedd ar ei isaf yn ystod mis Mawrth a mis Tachwedd pan gofnodwyd cyfradd o 6% a 7%. Y canran cyfartalog blynnyddol ar gyfer gwesteion tramor mewn tai llety a sefydliadau gwely a brecwast yn 2009 oedd 11% (1 pwynt canran yn is na'r gyfradd a gofnodwyd yn 2008).

Defnydd yn ôl Maint Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast

Yn debyg i'r sector gwestai a fel y nodwyd yn flaenorol, byddai'n ymddangos fod perthynas gadarnhaol gyda maint sefydliadau, gyda'r cyfraddau defnydd cyfartalog ar gyfer gwelyau ac ystafelloedd yn uwch (10% a 13% yn yr un drefn) mewn sefydliadau mwy gyda 4-10 ystafell. Mae'r defnydd uwch ymysg y sefydliadau hyn yn debygol o fod yn ganlyniad nifer o ffactorau yn cynnwys y ffaith fod sefydliadau mwy yn debycach o fod ar agor drwy'r flwyddyn a hefyd yn debycach o ddenu gwesteion busnes.

Defnydd yn ôl Tariff

Bu gostyngiad graddol rhwng 2004 a 2009 yn y cyfraddau defnydd blynyddol ar gyfer ystafelloedd mewn sefydliadau'n codi £20-29.99, o 43% i 30% . Mae sefydliadau sy'n codi £30-£39.99 hefyd wedi gweld gostyngiad tebyg yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yn amrywio o 49% yn 2004 i 37% yn 2009. Roedd maint y sampl ar gyfer sefydliadau'n codi dan £20 yn rhy fach i'w ddangos.

Defnydd yn ôl Lleoliad

Roedd lefelau defnydd ar gyfer sefydliadau mewn dinasoedd a threfi mawr yn amlwg uwch na'r rhai mewn trefi bach neu ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, oherwydd maint cymharol fach y sampl, mae angen peth gofal wrth ddehongli'r canlyniadau hyn. Fel yn y ddwy flynedd ddiwethaf, cofnodwyd y cyfraddau ail uchaf yn 2009 gan sefydliadau mewn ardaloedd glan môr gyda chyfraddau blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn 35% a 42% yn yr un drefn.

Defnydd yn ôl Graddiad

Fel yn y tair blynedd flaenorol, roedd gan sefydliadau gyda graddiad lefelau defnydd cyfartalog uwch ar gyfer gwelyau ac ystafelloedd na rhai heb raddiad. Er enghraifft, cofnododd rhai gyda graddiad 4 seren gyfraddau defnydd cyfartalog ar gyfer gwelyau ac ystafelloedd 15% a 16% yn uwch na'r rhai heb fod yn rhan o gynllun graddiad Croeso Cymru. Sefydliadau graddiad 3 seren oedd yr unig gategori i nodi cynnydd mewn cyfraddau defnydd rhwng 2008 a 2009 (gan gynyddu gan 3 pwynt canran).

Pob Llety

Roedd y cyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer ystafelloedd a gwelyau ar gyfer pob llety â gwasanaeth yr un faint â'r rhai a gofnodwyd yn 2008. Parhaodd cyfraddau defnydd gwelyau ar 38% a defnydd ystafelloedd ar 52%.


Roedd 2009 yn gyson gyda 2008 ar draws y flwyddyn gyda mwyafrif y misoedd yn cofnodi newidiadau bach mewn lefelau defnydd rhwng y ddwy flynedd. Yr eithriad oedd mis Medi a gofnododd ostyngiad o 4 pwynt canran mewn cyfraddau defnydd tramor o gymharu â 2008.

Llety Hunanddarpar


Bythynnod a Fflatiau

Defnydd Misol Unedau

Mae Ffigur 6-1 ar y dudalen nesaf yn cyflwyno cyfraddau defnydd blynyddol ar gyfer 2008 a 2009 ar gyfer gweithredwyr annibynnol a hefyd asiantaethau.

Ffigur 6-1- Defnydd Misol Unedau - Bythynnod a Fflatiau CYFAN (%)

Roedd cryn amrywiad mewn lefelau defnydd drwy gydol y flwyddyn gan adlewyrchu natur dymhorol y sector llety yma. Cynyddodd defnydd cyfartalog unedau o 20% ym mis Ionawr i frig o 75% ym mis Awst cyn gostwng i 22% ym mis Tachwedd. Cynyddodd lefelau cyfartalog defnydd unedau yn sylweddol ym mis Rhagfyr i 48%, yn fwyaf tebygol oherwydd y galw cynyddol yn ystod cyfnod gwyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.


Ffigur 6-2 – Defnydd Misol Unedau – Bythynnod a Fflatiau – Annibynnol (%)

Y gyfradd gyfartalog ar gyfer defnydd unedau ar gyfer gweithredwyr annibynnol yn 2009 oedd 54%, 1% yn uwch na'r ffigur a gofnodwyd yn 2008. Ac eithrio mis Mawrth a mis Ebrill, roedd ffigurau defnydd yn gymharol gyson gyda'r flwyddyn flaenorol gan adlewyrchu fod cyfnod gwyliau'r Pasg ym mis Ebrill yn ystod 2009 a mis Mawrth yn 2008. Mae lefelau defnydd yn dal yn is na'r rhai a gofnodwyd yn ystod 2007 gan adlewyrchu'r effaith a gafodd y dirywiad

economaidd, y cynnydd mewn costau tanwydd a byw a thywydd haf cyffredinol wael (yn arbennig yn 2008) ar gyfer llawer o'r DU ar y sector yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Cartrefi Gwyliau Carafan


Ffigur 7-1 – Defnydd Unedau Misol – Cartrefi Gwyliau Carafan (%)




Roedd cryn amrywiaeth mewn lefelau defnydd drwy gydol y flwyddyn. Ar draws y cyfnod brig o chwe mis, amrywiodd ffigurau defnydd o frig o 72% ym mis Ebrill i 96% ym mis Awst.

O gymharu gyda 2008, cynyddodd defnydd ar draws pob mis gyda chynnydd neilltuol yn y lefelau a gofnodwyd ym mis Hydref (cynnydd o 45 pwynt canran o gymharu gyda Hydref 2008).

Gan adlewyrchu hyn, cynyddodd cyfraddau defnydd ar draws y cyfnod mis Mai i fis Hydref gan 20 pwynt canran rhwng 2008 a 2009. Mae tystiolaeth o arolygon eraill yn cefnogi'r farn y bu cynnydd yn nifer y triplau gwyliau domestig a gymerwyd yn ystod 2009 a gostyngiad cyfatebol yn y galw am wyliau tramor ymysg preswylwyr y DU. Bu hyn yn neilltuol o amlwg mewn lleoliadau glan môr wrth i bobl gymryd eu gwyliau yn nes adref. O'r holl sectorau llety, cartrefi gwyliau carafan fwynhaodd y tymor mwyaf llwyddiannus gyda lefelau defnydd ar draws y flwyddyn yn llawer uwch nag a adroddwyd yn ystod 2008.

*Parciau Carafannau Teithiol a Gwersylla***Ffigur 8-1 - Defnydd Unedau Misol - Parciau Carafannau Teithiol a Gwersylla (%)**

Cofnododd lefelau defnydd ar draws y prif dymor - Mai i Hydref – ostyngiad o 14 pwynt canran o gymharu â 2008. Dylid rhoi ystyriaeth i feintiau sampl cymharol fach y sector yma, ynghyd ag amrywiad posibl yn yr arolwg rhwng blynyddoedd, wrth gymharu'r data rhwng blynyddoedd. Hyd yn oed felly, mae'n amlwg nad yw'r sector yma wedi perfformio gystal â rhai o'r sectorau eraill llety heb wasanaeth yn ystod y flwyddyn. Yn 2009, byddai'n ymddangos yn seiliedig ar wybodaeth o arolygon arall, i gyfran uwch o bobl gymryd eu gwyliau yn nes gartref yn y DU drwy gydol y flwyddyn. Gall cymryd gwyliau yn lleol fod wedi effeithio ar y sector, gyda mwy o wersyllwyr a charafanwyr o Loegr yn cymryd eu gwyliau yn Lloegr yn hytrach na theithio i Gymru, gan effeithio ar barciau gwersylla a charafannau teithiol. Gall llifogydd yr haf hefyd fod wedi effeithio mwy ar barciau carafannau teithiol a gwersylla na sectorau llety arall sy'n dibynnu mwy ar archebu ymlaen llaw.

*Hostelau a Thai Bynciau***Ffigur 9-1 – Defnydd Misol Gwelyau - Hostelau – (%)**

Yn 2009, cynyddodd defnydd gwelyau o 17% yn Ionawr i frig o 68% ym mis Gorffennaf, cyn gostwng i 22% ym mis Rhagfyr. Bu gostyngiad sylweddol mewn cyfraddau defnydd rhwng mis Awst a mis Medi (gostyngiad o 20 pwynt canran) a mis Hydref a mis Tachwedd (eto, gostyngiad o 20 pwynt canran). Fel y llynedd, mae'n ddiddorol fod y galw am lety hostel ychydig yn uwch ym mis Hydref nag ym mis Medi (43% o gymharu â 40%), a gall gwyliau hanner tymor fod wedi effeithio ar hynny. Nododd mis Hydref hefyd alw cryf ar draws y sector gwestai a thai llety a gwely a brecwast. Ar draws 2009 i gyd, roedd y gyfradd gyfartalog ar gyfer defnydd gwelyau yn 41%.

O gymharu â 2008, cynyddodd cyfraddau defnydd gan 9 pwynt canran yn ystod y flwyddyn. Adroddodd mis Ebrill (y Pasg) a mis Gorffennaf hyd at fis Rhagfyr i gyd gynnydd mawr o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

2. Cyflwyniad a Methodoleg

Cyflwyniad

Cynhaliwyd arolwg defnydd ymysg darparwyr llety gwesty graddedig yn ddi-dor ers 1972 i fonitro lefelau galw am ystafelloedd a gwelyau gwesty yng Nghymru. I gydymffurfio gyda gofynion Cyfarwydddeb yr Undeb Ewropeaidd ar Ystadegau Twristiaeth, cafodd yr arolwg ei ymestyn yn 1997 i gynnwys pob llety â gwasanaeth yn cynnwys tai llety a sefydliadau gwely a brecwast, yn ogystal â llety â gwasanaeth heb ei raddio.

Cynhaliwyd yr arolwg hunanddarpar mewn gwahanol fformatau ers 1987. Ers 2003 fodd bynnag, bu'r fethodoleg a'r feddalwedd a ddefnyddiwyd i ddadansoddi'r data yn gyson. Mae'r arolwg yn cynnwys llety hunanddarpar, cartrefi gwyliau carafan a pharciau carafannau teithiol a gwersylla. Ymhellach, yn 2008, cafodd hostelau a thai bynciau hefyd eu cynnwys o fewn cwrmpas yr arolwg.

Lle bo'r ffigurau ar gael ac yn addas, cyflwynir ffigurau cymharol o flynyddoedd blaenorol drwy'r adroddiad. Mae Adrannau 3 i 9 yn edrych yn fanwl ar bob un o'r sectorau llety fel sy'n dilyn:

- Adran 3: Gwestai
- Adran 4: Tai Llety a sefydliadau Gwely a Brecwast
- Adran 5: Pob Llety â Gwasanaeth
- Adran 6: Bythynnod a fflatiau hunanddarpar
- Adran 7: Cartrefi gwyliau carafan
- Adran 8: Parciau carafannau teithiol a gwersylla
- Adran 8: Hostelau a thai bynciau

Cyflwynir copïau o'r ffurflenni misol a gwblhawyd gan weithredwyr yn Atodiad 5.

Methodoleg arolwg Gwestai a Thai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast

Gan ailadrodd y fethodoleg a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r arolwg o westai, tai llety a sefydliadau gwely a brecwast yn arolwg misol o banel o sefydliadau ym mhob rhan o Gymru. Ar ddechrau pob mis, derbyniodd y rhai a gytunodd gymryd rhan yn yr arolwg ffurflen defnydd misol y gofynnwyd iddynt ei llenwi a'i dychwelyd i TNS-RI Travel and Tourism i'w dadansoddi ar ddiwedd pob mis. Mae'r ffurflen yn gofyn i weithredwyr gofnodi ar sail ddyddiol: y nifer o westeion o'r Deyrnas Unedig a gwesteion tramor yn aros dros nos, nifer y gwesteion ar fusnes, nifer yr ystafelloedd a ddefnyddiwyd; a nifer y lleoedd gwely a'r ystafelloedd ar gael.

Ar ddiwedd y flwyddyn, ail-gynhaliwyd y dadansoddiad o'r arolwg, gan felly ei gwneud yn bosibl cynnwys unrhyw ffigurau a ddaeth i law yn hwyr. Mae'r ffigurau yn yr adran hon o'r adroddiad yn seiliedig ar yr ail arolwg ac felly gallant fod yn wahanol i'r rhai a gynhyrchwyd i ddechrau yn y crynodebau misol. Er mwyn gwneud iawn am y gwahanol lefelau o ymateb gan fathau o sefydliadau, yn ystod y cam dadansoddi, cafodd y data ei bwysoli yn ôl nifer yr ystafelloedd ar y lefel rhanbarthol ac yn ôl maint y sefydliad.

Y prif fesurau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad yw defnydd gwelyau ac ystafelloedd.

Mae *cyfraddau defnydd gwelyau* yn cyfeirio at y gyfran o'r holl leoedd gwely sydd ar gael ar unrhyw amser penodol a gaiff eu defnyddio gan westeion sy'n talu. Wrth gyfrif y ffigurau hyn, caniateir i gyfanswm nifer y lleoedd gwely amrywio dros y tymor i roi ystyriaeth i unrhyw newidiadau yn nifer y gwelyau a gynigir gan westai a llety gwesteion unigol drwy ddefnyddio gwelyau ychwanegol, neu dynnu rhai ystafelloedd yn ôl o ddefnydd.

Mae *defnydd ystafelloedd* yn cyfeirio at y gyfran o ystafelloedd sydd ar gael ar unrhyw amser penodol a ddefnyddir gan o leiaf un ymwelydd sy'n talu. Mae'r cyfraddau hyn yn wahanol i gyfraddau defnydd gwelyau gan y gall yr ystafell gael ei defnyddio er na ddefnyddir yr holl ofodau gwely yn yr ystafell.

Mae'r tabl drosodd yn dangos sut y cyfrifir cyfraddau defnydd gwelyau ac ystafelloedd.

Cyfradd defnydd gwelyau:	Cyfanswm nifer y lleoedd gwely a ddefnyddiwyd	X 100%
	Cyfanswm nifer y lleoedd gwely ar gael	
Cyfradd defnydd ystafelloedd =	Cyfanswm nifer yr ystafelloedd gwely a ddefnyddiwyd	X 100%
	Cyfanswm nifer yr ystafelloedd awelw ar ael	

Methodoleg bythynnod a fflatiau hunanddarpar

Yn 2009, roedd elfen hunanddarpar yr arolwg yn cynnwys cyfnod o ddeuddeg mis llawn. Caiff gweithredwyr hunanddarpar ddewis llenwi eu ffurflenni ar sail ddyddiol neu fisol. Gall misoedd gael eu seilio ar bedair, neu bum wythnos, yn dibynnu ar y nifer o ddyddiau Sadwrn mewn mis neilltuol.

Cesglir ffigurau defnydd ar gyfer y mathau eraill o lety hunanddarpar - parciau carafannau teithiol a gwersylla, parciau carafannau sefydlog a hostelaau - ar sail ddyddiol ac mae'r canlyniadau'n cyfeirio at y mis calendr.

Anfonir ffurflen ddefnydd at banel o weithredwyr ar ddechrau pob mis. Gofynnir iddynt gofnodi, ar gyfer pob uned, ar sail ddyddiol: p'un ai oedd yr uned heb fod ar gael i'w llogi, wedi'i harchebu neu ar gael; a'r uchafswm rhent wythnosol a godwyd yn ystod cyfnod pedair neu bum wythnos yr arolwg. Dychwelir y ffurflen i TNS-RI Travel and Tourism i'w dadansoddi ar ddiwedd y mis. Ail-gynhaliwyd y dadansoddiad o'r arolwg ar ddiwedd y flwyddyn, gan felly ei gwneud yn bosibl cynnwys unrhyw ffigurau a ddaeth i law yn hwyr. Mae'r ffigurau yn yr adran hon o'r adroddiad yn seiliedig ar yr ail ddadansoddiad ac felly gallant fod yn wahanol i'r rhai a gynhyrchwyd i ddechrau yn y crynodebau misol.

Mae'r tabl islaw yn dangos sut y cafodd y cyfraddau defnydd unedau eu cyfrif.

Cyfradd defnydd uned =	$\frac{\text{Cyfanswm nifer yr unedau a ddefnyddiwyd}}{\text{Cyfanswm nifer yr unedau ar gael}}$	X 100%
-------------------------------	--	---------------

Methodoleg cartrefi gwyliau carafan a chabannau gwyliau

Gan adlewyrchu natur dymhorol y math yma o lety, yn 2009 gofynnwyd i weithredwyr roi data rhwng mis Mawrth – mis Hydref cynhwysol (yn 2008, roedd cartrefi gwyliau carafan sefydlog yn cwmpasu cyfnod llawn o ddeuddeg mis).

Cesglir ffigurau defnydd ar gyfer carafannau sefydlog ar sail ddyddiol ac mae'r canlyniadau'n cyfeirio at y mis calendr. Ar ddechrau pob mis, anfonir ffurflen defnydd at banel o weithredwyr. Gofynnir iddynt gofnodi'r nifer o garafannau sefydlog a chabannau gwyliau oedd ar gael fesul noson ac ar sail ddyddiol, y nifer a osodwyd (ar wahân ar gyfer carafannau a chabannau gwyliau). Dychwelir y ffurflen i TNS-RI Travel and Tourism i'w dadansoddi ar ddiwedd y mis. Ail-gynhaliwyd y dadansoddiad ar ddiwedd y flwyddyn, gan felly ei gwneud yn bosibl cynnwys unrhyw ffigurau a ddychwelwyd yn hwyr. Mae'r ffigurau yn yr adran hon o'r adroddiad yn seiliedig ar y dadansoddiad ar ddiwedd y flwyddyn ac felly medrant fod yn wahanol i'r rhai a gynhyrchwyd yn wreiddiol yn y crynodebau misol.

Dengys y tabl islaw sut y caiff cyfraddau defnydd lleiniau eu cyfrif.

Cyfradd defnydd llain =	$\frac{\text{Cyfanswm nifer y lleiniau a ddefnyddiwyd}}{\text{Cyfanswm nifer y lleiniau ar gael}}$	X 100%
--------------------------------	--	---------------

Methodoleg carafannau teithiol a pharciau gwersylla

Fel gyda cartrefi gwyliau carafan a chabannau, gan adlewyrchu natur dymhorol y math yma o lety, yn 2009 gofynnwyd i weithredwyr roi data rhwng mis Mawrth – mis Hydref cynhwysol (yn 2008, roedd y sector hefyd yma'n cynnwys cyfnod o ddeuddeg mis llawn).

Cesglir ffigurau defnydd ar gyfer carafannau sefydlog ar sail ddyddiol ac mae'r canlyniadau'n cyfeirio at y mis calendr. Ar ddechrau pob mis, anfonir ffurflen defnydd at banel o weithredwyr. Gofynnir iddynt gofnodi'r nifer o leiniau carafannau a phebyll oedd ar gael fesul noson ac ar sail ddyddiol, y nifer a osodwyd (ar wahân ar gyfer lleoedd carafan a phebyll). Dychwelir y ffurflen i TNS-RI Travel and Tourism i'w dadansoddi ar ddiwedd pob mis. Ail-gynhaliwyd y dadansoddiad ar ddiwedd y flwyddyn, gan felly ei gwneud yn bosibl cynnwys unrhyw ffigurau a ddychwelwyd yn hwyr. Mae'r ffigurau yn yr adran hon o'r adroddiad yn seiliedig ar y dadansoddiad ar ddiwedd y flwyddyn ac felly medrant fod yn wahanol i'r rhai a gynhyrchwyd yn wreiddiol yn y crynodebau misol.

Dengys y tabl islaw sut y caiff cyfraddau defnydd lleiniau eu cyfrif.

Cyfradd defnydd llain =	Cyfanswm nifer y lleiniau a ddefnyddiwyd	X 100%
	Cyfanswm nifer y lleiniau ar gael	

Methodoleg hostelau a thai bynciau

Mae'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer arolygon hostelau a thai bynciau yn debyg i'r un a ddefnyddir ar gyfer gwestai, tai llety a sefydliadau gwely a brecwast. Mae'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yn derbyn ffurflen defnydd ar ddechrau pob mis a gofynnir iddynt gofnodi'n ddyddiol gyfanswm nifer y gwesteion yn aros a'r nifer o leoedd gwely sydd ar gael. Yn wahanol i westai, oherwydd bodolaeth llety arddull dormitori, ni ofynnir i weithredwyr hostel faint o ystafelloedd a gaiff eu defnyddio.

Gofynnir i hostelau gofnodi p'un ai yw gwesteion o'r Deyrnas Unedig neu dramor. Gofynnir i dai bynciau gofnodi, ar gyfer pob diwrnod, gyfanswm nifer y gwesteion heb wahaniaethu rhwng y DU a thramor. Fodd bynnag, gofynnir iddynt hefyd fynegi unrhyw ddiwrnod pan archebwyd yr holl sefydliad gan grŵp. Yn yr achos hwn cymerir fod nifer y gwesteion yr uchafswm posibl.

Caiff y ffurflenni a lenwyd eu dychwelyd i TNS-RI Travel and Tourism i'w dadansoddi ar ddiwedd y mis. Ar ddiwedd y flwyddyn, ail-gynhaliwyd y dadansoddiad o ddata'r arolwg, gan felly'i gwneud yn bosibl cynnwys unrhyw ffigurau a ddychwelwyd yn hwyr. Mae'r ffigurau yn yr adran hon o'r adroddiad yn seiliedig ar y dadansoddiad blynyddol a gallant felly fod yn wahanol i'r rhai a gynhyrchwyd yn wreiddiol yn y dalenni crynodeb misol.

Mae'r tabl islaw'n dangos sut y cafodd cyfraddau defnydd gwelyau eu cyfrif.

Cyfradd defnydd gwelyau =	Cyfanswm nifer y lleoedd gwely a ddefnyddiwyd Cyfanswm nifer y lleoedd gwely ar gael	X 100%
----------------------------------	---	---------------

Canlyniadau Tueddiadol – llety heb wasanaeth

Cyflwynwyd ffigurau cymharol o 2006 a 2007 (pan gynhaliwyd yr arolwg gan gontractwr arall) drwy gydol yr adran lle maent ar gael ac yn addas. Gwnaed newid sylfaenol i'r dadansoddiad o weithredwyr annibynnol o fewn y sector hunanddarpar gan yr asiantaeth oedd yn gyfrifol am yr arolwg hyd 2007. O 2006 ymlaen, dim ond pan oedd cyfleuster ar gael i'w logi y rhoddwyd data amdano. Cyn hynny, nid oedd lefelau defnydd yn swyddogol yn rhoi ystyriaeth i argaeledd ac roedd cyfnodau lle nad oedd cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd yn cael eu dosbarthu mewn dulliau gwahanol gan weithredwyr unigol. Er mwyn cysondeb, dim ond dadansoddiad tueddiadol o lefelau defnydd hanesyddol o 2006 ymlaen yr ydym wedi'u rhoi, gan felly sicrhau fod y ffigurau a ddadansoddwyd yn fethodolegol gyson. Ar gyfer symrlwydd a lle'n addas, rydym wedi defnyddio'r canllaw tueddiadol tair blynedd yma ar gyfer pob segment hunanddarpar.

Fodd bynnag, dylid nodi bod angen gofal wrth ddehongli canlyniadau tueddiadol. Er y gwnaed pob ymdrech i sicrhau cysondeb ar draws yr arolwg, gall elfen o amrywiad arolwg fodoli lle caiff arolwg a gynhaliwyd am gyfnod hir ei drosglwyddo rhwng dwy asiantaeth.

Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Mae'r tabl islaw yn rhoi diffiniad o ranbarthau Cymru a ddefnyddiwyd yn yr arolwg defnydd.

<i>Gogledd:</i>	Ynys Môn, gogledd Gwynedd (Sir Gaernarfon), Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.
<i>Canolbarth:</i>	Ceredigion, Powys a de Gwynedd (Meirionnydd).
<i>De:</i>	Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd, Caerdydd, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.
<i>De Ddwyrain:</i>	Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd, Caerdydd.
<i>De Orllewin:</i>	Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

3. Gwestai

Mae Adran 3 yr adroddiad yn rhoi lefelau cyfartalog misol a blynyddol defnydd ystafelloedd a gwelyau ar gyfer gwestai. Mae manylion am fethodoleg yr arolwg yn Adran 2.

Maint y Sampl


Cymerodd cyfanswm o 127 gwesty ran yn yr arolwg yn 2009 (h.y. dychwelyd o leiaf un ffurflen yn ystod y flwyddyn). I sicrhau y medrir cymharu'r canlyniadau ar draws y misoedd, gwnaed llawer o ymdrech i geisio cadw lefel yr ymateb bob mis ac anogwyd gweithredwyr i roi ymateb llawn dros y flwyddyn. Rhoddodd dros hanner (57%) y gweithredwyr a gyfrannodd at yr arolwg ddata ar gyfer pob mis o'r flwyddyn. Rhoddodd 16% arall ddata am bob mis heblaw un yn y flwyddyn.

Yn ystod y cyfnod hwn, recriwtiwyd 4 gwesty gan awdurdodau lleol i gymryd rhan yn yr arolwg Fodd bynnag, yn yr un cyfnod fe wnaeth 4 o sefydliadau un ai adael neu gael eu dileu o'r arolwg. Cafodd sefydliadau eu dileu o'r sampl gan nad oeddent wedi anfon ffurflenni dros gyfnod hir. Mae amrywiaeth fawr o resymau pam fod sefydliadau wedi gadael yr arolwg: newid mewn perchnogaeth/rheolaeth, gweithredwyr yn rhy brysur i lenwi ffurflenni ar amserau brig o'r flwyddyn, afiechyd, ymddeoliad, gweithredwyr a sefydliadau'n rhoi'r gorau i fasnachu fel gwestai. Yn ychwanegol, mae hefyd 'flinder ymatebwyr' lle mae rhai a gymerodd ran yn yr arolwg am beth amser yn credu eu bod wedi "*gwneud eu pwt dros yr arolwg*". Gall hyn fod yn neilltuol o amlwg ar ddechrau blwyddyn arolwg newydd.

Defnydd Cyfartalog Blynyddol Gwelyau ac Ystafelloedd

Y cyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn 2009 oedd 42% a 58% yn yr un drefn, gostyngiad bychan o 1% ar gyfer defnydd gwelyau a'r un gyfradd defnydd ystafelloedd ag yn 2008. Mae'r cyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd a gwelyau wedi parhau'n gymharol gyson ers 2003.


Ffigur 3-1 – Gwestai – Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd – Cyfartaleddau Blynyddol (%)



Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd

Cyflwynir y cyfraddau misol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd ynghyd â'r cyfartaleddau blynyddol a gofnodwyd yn y sector gwestai yn 2009 yn Ffigur 3-2 islaw.

Ffigur 3-2 – Gwestai – Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd – 2009 (%)



Mae'r cyfraddau defnydd a gofnodwyd yn 2009 yn adlewyrchu natur dymhorol y sector gwestai, gyda'r gyfradd defnydd gwelyau cyfartalog yn cofnodi 26% yn ystod mis Ionawr, gan gynyddu i frig o 56% ym mis Awst cyn gostwng i 34% ym mis Rhagfyr. Mae'r tueddiad hefyd i'w weld yn y ffigurau cyfartalog ar gyfer defnydd ystafelloedd a gododd o 40% ym mis Ionawr i 70% ym mis Awst, cyn disgyn i 47% ym mis Rhagfyr.

Tabl 3-1 – Gwestai – Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Ystafelloedd – Cyfartaledd Misol (%)

	Defnydd ystafelloedd									
	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009
Ionawr	31	33	36	37	35	40	38	40	39	40
Chwefror	42	43	47	48	49	48	50	50	50	48
Mawrth	44	44	50	50	52	52	51	53	54	51
Ebrill	52	49	52	56	54	57	58	58	56	58
Mai	58	61	60	62	63	63	65	65	66	62
Mehefin	61	63	63	63	65	65	66	67	66	68
Gorffennaf	67	66	65	66	67	67	70	67	67	70
Awst	68	70	67	69	68	69	73	73	71	70
Medi	63	64	65	67	69	69	71	71	69	69
Hydref	55	58	58	58	58	58	61	62	61	63
Tachwedd	47	53	50	50	52	50	53	55	54	54
Rhagfyr	41	43	42	43	45	43	44	47	45	47
Cyfartaledd	52	54	55	56	57	57	58	59	58	58
<i>Blynyddol</i>										

Roedd y cyfraddau cyfartalog ar gyfer defnydd ystafelloedd a gofnodwyd yn ystod 2009 yn debyg i 2008. Roedd defnydd mewn naw o'r deuddeg mis o fewn cwpl o ganrannau i'r rhai a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Gwelwyd y gwahaniaeth mwyaf rhwng y ddwy flynedd yn ystod mis Mai pan oedd defnydd 4 pwynt canran yn is yn 2009.


Ymddengys na wnaeth y dirwasgiad economaidd a ddaeth yn amlwg ganol 2008 effeithio llawer ar y sector gwestai, gyda rhai o'r cyfraddau defnydd ystafell uchaf a gofnodwyd yn ystod 2008 a 2009 yn y deng mlynedd diwethaf.

Mae Atodiad 1a yn rhoi'r tueddiadau mewn cyfraddau defnydd gwelyau misol ers 2000.

Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Mae Ffigur 3-3 islaw'n cyflwyno'r cyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd ym mhob rhanbarth o Gymru.

Caiff y canlyniadau ar gyfer De Cymru hefyd eu rhoi ar wahân ar gyfer rhanbarthau'r De Ddwyrain a'r De Orllewin.

Ffigur 3-3 - Gwestai – Cyfartaledd Blynyddol yn ôl Rhanbarthau Cymru – 2008 (%)

Yn 2009, cofnodwyd lefelau tebyg ar draws y rhanbarthau ar gyfer y gyfradd defnydd gwelyau gyda thri o'r pump yn adrodd cyfartaledd o 40%. Fel yn 2008, y Canolbarth gofnododd y gyfradd defnydd isaf ar gyfer gwelyau, 4 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd ar 38%.

Roedd mwy o amrywiaeth ar draws y rhanbarthau ar gyfer y gyfradd flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, sefydliadau yn y De Ddwyrain gofnododd rai o'r cyfraddau uchaf ar gyfer defnydd ystafelloedd, er i'r Gogledd fod â chyfartaledd cyfartal yn 2009, gyda'r ddau yn cofnodi 62%. Cofnododd De Cymru hefyd lefelau cyfartalog cymharol uchel ar gyfer defnydd ystafelloedd ar 59%. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd gan y Canolbarth lefel defnydd ystafelloedd ychydig yn is na'r cyfartaledd o 49%.

Cyflwynir lefelau defnydd cyfartalog ar gyfer ystafelloedd a gwelyau ar gyfer pob rhanbarth ar sail fisol ar gyfer 2009 yn Atodiad 1b ac 1c. Cyflwynir lefelau defnydd ystafelloedd a gwelyau yn ôl awdurdod unedol yn Atodiad 1d ac 1e. Dylid nodi nad yw'r wybodaeth hon bob amser ar gael oherwydd maint bychan y sampl mewn rhai ardaloedd.

Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Rhoddir cyfraddau defnydd ystafelloedd yn rhanbarthau Cymru ers 2000 yn Nhabl 3-2 islaw.

Yn 2009, roedd tueddiad tebyg i'r ychydig flynyddoedd diwethaf gyda sefydliadau yn y De Ddwyrain a'r De yn cofnodi'r cyfraddau uchaf ar gyfer ystafelloedd a sefydliadau yn y Canolbarth yn cofnodi'r cyfraddau isaf. Mae cyfraddau defnydd ystafelloedd ar gyfer sefydliadau yng Ngogledd Cymru yn parhau i gynyddu (o 53% yn 2003 i 62% yn 2009). Y Gogledd hefyd oedd yr unig ranbarth yn 2009 i gofnodi cyfraddau defnydd ystafelloedd uwch o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Tabl 3-2 – Gwestai – Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Ystafelloedd yn ôl Rhanbarthau Cymru (%)


	Cyfradd Cyfartalog Defnydd Ystafelloedd									
	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009
Gogledd	53	53	52	53	54	54	57	59	57	62
Canolbarth	43	44	49	51	52	52	53	53	50	49
De	55	58	58	59	60	60	61	61	62	59
De Ddwyrain	57	61	60	62	63	60	63	63	66	62
De Orllewin	48	53	56	54	55	59	58	58	56	53
CYFANSWM CYMRU	52	54	55	56	57	57	58	59	58	58

Canran Gwesteion Tramor

Fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd, yn 2008 diweddarwyd y ffurflenni a ddefnyddiwyd i gasglu data defnydd i roi mwy o ffocws iddynt a'u gwneud yn fwy effeithiol. Roedd un o'r newidiadau yn effeithio ar y ffordd y casglwyd gwybodaeth am westeion tramor. Mewn blynyddoedd blaenorol, gofynnwyd i sefydliadau roi gwybodaeth ar nifer yr ymwelwyr newydd yn cyrraedd bob dydd (o'r Deyrnas Unedig a hefyd dramor) a chyflwynwyd canran y gwesteion tramor yn seiliedig ar gyfanswm nifer yr ymwelwyr newydd yn cyrraedd. Ni chesglir yr wybodaeth hon bellach, felly fel canlyniad rydym wedi cyflwyno'r gyfran o westeion tramor fel canran nosweithiau gwely tramor (seiliedig ar gyfanswm nosweithiau gwely).

Mae'n bwysig dweud mai ychydig o leoedd degol yw'r gwahaniaeth rhwng y gwahanol ddulliau o gasglu data tramor. Fel enghraifft, mae canran blynyddol 2007 yn 4.0% yn defnyddio'r hen dull a 4.1% yn defnyddio'r dull newydd.

Oherwydd y newidiadau hyn, ac i sicrhau y caiff ffigurau tramor ar draws y blynyddoedd eu cymharu'n gyson yn seiliedig ar yr un broses fethodolegol, rydym wedi gostwng faint o wybodaeth dueddiadol a gyflwynir ar gyfer gwesteion tramor a chanolbwyntiwn yn yr adroddiad hwn ar ganlyniadau diweddaraf 2008 a 2009.



Ffigur 3-4 – Gwestai – Canran Nosweithiau Gwely Tramor 2009 (%)

Fel y medrid disgwyl, roedd y defnydd tramor uchaf ymhlith y prif dymor twristiaeth (Mai i Medi), gyda 5-6% wedi'i gofnodi ar gyfer gwesteion tramor yn ystod y misoedd hyn. Ym mis Rhagfyr ar 2% y cafwyd y cofnodwyd canran isaf y flwyddyn. Fodd bynnag cofnodwyd lefelau defnydd tramor cymharol uchel ym mis Ionawr o 5%, yr un canran â mwyafrif misoedd brig tymor yr haf. 5% oedd y cyfran cyfartalog blyneddol o westeion tramor.

Tueddiadau yn y Canran Gwesteion Tramor

Fel y dangosir yn Ffigur 3-5 islaw, roedd y canran gwesteion tramor a gofnodwyd yn 2009 yr un fath ag yn 2008 ar 5%.


Roedd lefelau defnydd tramor yn uwch yn ystod cyfnod Chwarter 1 yn 2009 ond yna, ac eithrio ym mis Awst, roeddent yn ei chael yn anodd cyfateb lefelau 2008 am weddill y flwyddyn.

Ffigur 3-5 – Gwestai – Tueddiadau Canrannau Gwesteion Tramor (%)**Ffigur 3-6 – Gwestai – Canran Gwesteion Tramor yn ôl Rhanbarth 2008 – 2009 (%)**

Cofnododd rhanbarth y De Ddwyrain ostyngiad mewn lefelau defnydd tramor o 10% yn 2008 i 7% yn 2009. Y De Orllewin gofnododd y defnydd tramor uchaf ar draws y rhanbarthau yn 8%, a dyma'r unig ranbarth i gofnodi cynnydd o gymharu â 2008.

Canran Gwesteion Busnes

Ar y ffurflen defnydd misol, gofynnir i weithredwyr nodi'r nifer o westeion sy'n aros yn y gwesty bob nos ar gyfer dibenion busnes. Dylid nodi nad yw pawb sy'n cymryd rhan yn rhoi'r wybodaeth yma.

Ffigur 3-7 – Gwestai – Canran Gwesteion Tramor 2009 (%)

Yn wahanol i'r tueddiad ar gyfer y lefelau defnydd cyffredinol, roedd y canran gwesteion busnes ar ei uchaf ar ddechrau a diwedd y flwyddyn. Cofnodwyd y gyfran uchaf o westeion busnes ym mis Ionawr (31%). Gostyngodd y gyfradd a gofnodwyd i 11% ym mis Awst, cyn codi eto i 19% ym mis Tachwedd (21%), ac yna ostwng ychydig i 17% ym mis Rhagfyr. Mae'r patrwm hwn o gyfran uwch o westeion tramor ym misoedd y gaeaf yn dueddiad sefydlog yng nghyrcffannau'r Deyrnas Unedig.


Fel y dangosir yn Nhabl 3-3 ar y dudalen nesaf, roedd y gyfran gyfartalog flynyddol o westeion busnes yn 18%, gostyngiad o ddau bwynt canran ar y gyfradd a gofnodwyd yn 2008 ac yn ôl i lefelau 2007. Roedd rhai amrywiadau yn y canran gwesteion busnes rhwng 2008 a 2009, yn fwyaf amlwg yn ystod misoedd Ionawr, Mawrth, Ebrill a Tachwedd. Mae'n debygol i gyfnod gwyliau'r Pasg effeithio ar fis Mawrth a mis Ebrill, gan fod ym mis Mawrth yn 2008 a mis Ebrill yn 2009.

Mae lefelau defnydd ar gyfer gwesteion busnes dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi bod yn yr ystod 18-20%, yn is na'r gyfradd a gofnodwyd ar gyfer y cyfnod 2003 i 2005 (23-27%).

Tabl 3-3 Tueddiadau mewn Canrannau Gwesteion Busnes

	% o westeion busnes						
	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009
Ionawr	36	41	45	41	33	38	31
Chwefror	33	38	37	30	25	26	26
Mawrth	30	39	30	28	21	19	24
Ebrill	21	25	26	15	15	24	17
Mai	18	24	19	17	18	16	16
Mehefin	19	20	21	17	16	19	20
Gorffennaf	17	22	19	17	14	18	17
Awst	13	15	14	14	10	11	11
Medi	20	21	22	15	12	18	14
Hydref	28	25	25	21	15	21	18
Tachwedd	38	38	34	24	23	28	19
Rhagfyr	26	24	28	18	24	21	17
Cyf. Blynnyddol	23	27	25	20	18	20	18

Fel yr adroddwyd mewn blynnyddoedd blaenorol, mae'r gyfran gwesteion busnes yn sylweddol uwch yn Ne Ddwyrain Cymru nag yn y rhanbarthau eraill. Mae hyn yn ddealladwy gan fod rhanbarth y De Ddwyrain yn cynnwys Caerdydd, y brifddinas. Yn dilyn cynnydd o ddeg pwynt canran rhwng 2006 a 2007, parhaodd y canran gwesteion tramor yn y De Ddwyrain i gynyddu ond ar gyfradd is rhwng 2007 a 2008 - i fyny dri phwynt canran. Yn 2009 fodd bynnag gostyngodd y canran o westeion busnes gan ddau bwynt canran i 42%. Cofnododd rhanbarth y De Orllewin gynydd bach o 16%.

Ffigur 3-8 – Gwestai – Canran Cyfartalog Blynnyddol o Westeion Busnes yn ôl Rhanbarth 2003 – 2009 (%)


Dadansoddiad Manwl o'r Prif Ganlyniadau

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn edrych yn fanylach ar wahanol nodweddion y gwestai a'u dylanwad, os oedd ganddynt rai, ar lefelau defnydd gwelyau ac ystafelloedd.

Defnydd yn ôl maint gwesty

Cyflwynir y ffigurau defnydd cyfartalog blynyddol ar gyfer gwelyau ac ystafelloedd yn ôl maint gwestai ar gyfer 2009 yn Ffigur 3-9 islaw. Oherwydd maint bach y sampl, nid oes dadansoddiad ar gyfer gwestai gyda 1-3 ystafell. Rhoddir manylion lefelau defnydd misol gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob un o'r categorïau maint a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad yn Atodiad 1b ac 1c yr adroddiad hwn.

Ffigur 3-9 – Defnydd Blynyddol yn ôl Maint Gwesty - 2008 (%)



Mae Ffigur 3-9 uchod yn dangos perthynas gadarnhaol rhwng maint gwestai a lefelau defnydd. Cofnododd gwestai gyda dros 100 ystafell gyfradd gyfartalog ar gyfer defnydd gwelyau 17 pwynt canran yn uwch na'r gyfradd a gofnodwyd ar gyfer gwestai gyda 4-10 ystafell, ac roedd 29 pwynt canran o wahaniaeth rhwng y cyfraddau cyfartalog ar gyfer defnydd ystafelloedd a gofnodwyd gan westai yn y ddau fand maint yma.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae nifer o ffactorau a fedrai fod wedi cyfrannu at y gydberthynas gadarnhaol gyffredinol hon. Mae gwestai mwy yn tueddu i fod ar agor drwy'r flwyddyn ac yn fwy tebygol o fod yn mynd ati i farchnata eu sefydliadau. Hefyd, mae llawer ohonynt wedi lleoli mewn dinasoedd a threfi mawr, gan eu gwneud yn fwy tebygol o gael gwesteion busnes yn defnyddio ystafelloedd sengl.

Tabl 3-4 – Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Maint Gwesty (%).

	Defnydd Cyfartalog Blynyddol Ystafelloedd									
	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009
4-10 ystafell	40	43	43	44	48	47	47	46	40	40
11-25 ystafell	46	49	51	50	50	52	53	54	53	55
26-50 ystafell	56	55	53	54	56	56	58	61	62	58
51-100 ystafell	59	60	60	63	66	60	62	64	66	63
101+ ystafell	65	67	68	68	68	69	71	68	67	69


Cofnododd gwestai yn y bandiau 11-25 ystafell a 101+ ystafell gynnydd bychan yn eu cyfradd flynyddol gyfartalog ar gyfer defnydd ystafelloedd o gymharu gyda 2008, gyda rhai yn y band maint 11-25 ystafell yn cofnodi eu cyfradd gyfartalog flynyddol uchaf ar gyfer defnydd ystafelloedd yn y deng mlynedd diwethaf. Ar y llaw arall, cofnododd sefydliadau yn y band maint 26-50 ystafell ostyngiad o bedwar pwynt canran rhwng 2008 a 2009. Hwn oedd y gostyngiad cyntaf mewn lefelau defnydd ar gyfer y band maint hwn ers 2002.

Defnydd yn ôl Tariff

Mae'r ffigurau tariff a ddefnyddiwyd yn yr arolwg yn cyfeirio at y swm a godwyd fesul person ar gyfer ystafell ddwbl neu ystafell gefell, yn cynnwys brecwast. Rhoddir manylion lefelau defnydd gwelyau misol pob un o'r categorïau tariff a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad yn Atodiad 1b ac 1c yr adran hon o'r adroddiad.

Mae Ffigur 3-10 islaw yn cyflwyno ffigurau blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn ôl tariff ar gyfer 2009. Fel gyda blynyddoedd blaenorol, nid oes dadansoddiad ar gyfer gwestai gyda thariff o lai na £20 gan na chymerodd unrhyw sefydliadau gyda'r tariff yma ran yn yr arolwg yn 2008.

Ffigur 3-10 – Defnydd Blynyddol yn ôl Tariff Gwesty – 2009 (%)




Fel y nodwyd mewn adroddiadau blynyddol blaenorol, cofnodwyd perthynas gadarnhaol rhwng y tariff a godwyd a lefelau defnydd ar gyfer gwestai unwaith eto. Cofnododd sefydliadau'n codi £60 neu fwy gyfradd gyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau 30 pwynt canran yn uwch na'r gyfradd a gofnodwyd gan y rhai'n codi £20-£29.99, ac roedd gwahaniaeth o 42 pwynt canran rhwng cyfraddau cyfartalog defnydd ystafelloedd a gofnodwyd ar gyfer gwestai yn y ddau fand tariff yma.

Cynyddodd y gwahaniaeth mewn cyfraddau defnydd ystafelloedd a hefyd ddefnydd ystafelloedd rhwng y bandiau tariff £50-£59.99 a £60+ rhwng 2008 a 2009. Yn 2008 roedd y bwlch y 2 pwynt canran ar gyfer defnydd gwelyau a 5 pwynt canran ar gyfer defnydd ystafelloedd. Yn 2009 roedd hyn wedi cynyddu i 5 pwynt canran ar gyfer defnydd gwelyau a 9

pwynt canran ar gyfer defnydd ystafelloedd. Byddai hyn yn awgrymu fod galw wedi dechrau dychwelyd, yn arbennig ymysg gwesteion busnes, ar gyfer gwestai yn yr ystod pris uchaf wrth i'r economi wella a theithio busnes ddechrau dychwelyd i'r lefel a gofnodwyd cyn 2008 drwy gydol y flwyddyn.

Mae Ffigur 3-11 islaw yn dangos y cyfraddau blynyddol cyfartalog ar gyfer defnydd ystafelloedd yn ôl tariff ar gyfer 2003 - 2009.

Ffigur 3-11 – Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Tariff Gwesty (%)




Cofnododd gwestai yn codi £50-£59.99 ostyngiad mewn cyfraddau defnydd ystafelloedd am yr ail flwyddyn yn olynol, gan ostwng o 62% yn 27 i 54% yn 2009. Cofnododd gwestai yn codi rhwng £20-£29.99 hefyd ostyngiad o 4 pwynt canran rhwng 2008 a 2009. Dylid nodi fod maint y sampl ar gyfer y categori yma hefyd wedi gostwng yn eithaf sylweddol a bod y nifer y ffurflenni a ddychwelwyd ar gyfer y band tariff hwn yn llai na phump mewn rhai misoedd. Mae'n debygol fod hyn oherwydd i westai symud o un band tariff i un arall yn dilyn cynnydd prisiau. Felly, mae angen gofal wrth drin y canlyniadau.

Defnydd yn ôl Lleoliad

Dadansoddwyd cyfraddau defnydd eu dadansoddi yn ôl lleoliad y gwesty - mewn dinas/tref fawr, tref fach, ar lân y môr neu yng nghefn-gwlad/mewn pentref. Rhoddir manylion lefelau defnydd misol gwelyau ac ystafelloedd yn Atodiad 1b ac 1c yr adroddiad hwn.

Dangosir y ffigurau blynyddol cyfartalog ar gyfer defnydd ystafelloedd a gwelyau yn ôl lleoliad yn Ffigur 3-12 ar y dudalen nesaf.

Ffigur 3-12- Defnydd Blyneddol yn ôl Lleoliad Gwesty - 2009 (%)

Yn unol gyda chanfyddiadau blaenorol, cofnodwyd y lefelau blyneddol uchaf ar gyfer defnydd ystafelloedd a gwelyau yn 2009 gan sefydliadau mewn dinasoedd a threfi mawr (47% a 69% yn yr un drefn). Gwestai mewn dinasoedd a threfi mawr hefyd gofnododd y gwahaniaeth mwyaf rhwng defnydd gwelyau ac ystafelloedd gan ddangos effaith twristiaeth busnes ar y sefydliadau hyn. O gymharu, gwestai mewn trefi bach gofnododd y cyfraddau isaf ar gyfer defnydd gwelyau (37%), a gwestai mewn ardaloedd gwledig a phentrefi gofnododd y cyfraddau isaf ar gyfer defnydd ystafelloedd (52%). Gwestai mewn ardaloedd gwledig a phentrefi hefyd gofnododd y gwahaniaeth lleiaf rhwng cyfraddau defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar 12 pwynt canran, gan adlewyrchu y cyfrannau uwch o deithwyr hamdden (gyda lefelau uwch o ddefnydd fesul ystafell) yn aros mewn gwestai yn y lleoliadau hyn.


Tabl 3-5 – Tueddiadau mewn Cyfraddau Blyneddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Lleoliad Gwesty (%)

	Defnydd Blyneddol Ystafelloedd									
	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009
Dinas/tref fawr	60	66	69	72	69	67	71	71	71	69
Tref fach	51	54	52	53	54	56	57	57	53	55
Glan môr	56	56	56	57	56	56	57	62	60	58
Gwledig/pentref	46	48	49	52	53	53	53	52	53	52

Ychydig o amrywiad mewn cyfraddau defnydd ystafell oedd rhwng 2008 a 2009 yn ôl lleoliad gwesty. Gwestai mewn trefi bach oedd yr unig categori i gofnodi cynnydd o gymharu â 2008 (gan gynyddu gan 2 pwynt canran).


Defnydd yn ôl Graddiad

Ers 1999, cafodd cyfraddau defnydd gwestai hefyd eu dadansoddi yn ôl eu graddiad dan y Cynllun Graddiad Seren a weinyddir gan Croeso Cymru (gynt Bwrdd Croeso Cymru). Ar y sail yma, nid oes unrhyw ffigurau cymharol ar gael cyn 1999. Oherwydd meintiau bach y sampl, nid oes dadansoddiad ar gyfer sefydliadau gyda graddiad 1 seren neu ar gyfer gwestai heb raddiad o fewn cynllun Croeso Cymru.

Ffigur 3-13 – Defnydd Blynyddol yn ôl Graddiad Gwesty – 2008 (%)

O fewn cynllun graddiad Croeso Cymru, roedd cydberthynas gadarnhaol rhwng cyfraddau defnydd gwelyau a'r cynllun graddiad. Y sefydliadau hynny gyda graddiad 5 seren gofnododd y cyfraddau defnydd uchaf gyda chyfraddau gwely rhwng 10-15% yn uwch, yn ogystal â chyfraddau ystafell 4-10% yn uwch na'r categorïau graddiad eraill.

Fel y dangosir yn Ffigur 3-14 islaw, mae cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer gwestai gyda graddiad 2 neu 3 seren wedi parhau'n gyson ers 2004. Yn 2008 cofnododd gwestai gyda graddiad 4 a 5 seren ostyngiad mewn cyfraddau defnydd. Gall hyn fod yn adlewyrchu'r dirwasgiad economaidd a orfododd ddefnyddwyr i ddefnyddio sefydliadau llai drud. Fodd bynnag, ar gyfer 2009, gyda'r rhagolygon economaidd yn gwella, cofnododd y ddau gategori gynnydd a dangos y cyfraddau uchaf yn y chwe mlynedd ddiwethaf. Cyflwynir ffigurau cyfartalog defnydd ystafelloedd yn Atodiad 1b ac 1 c.

Ffigur 3-14- Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Graddiad Gwesty (%)

4. Tai Llety a Sefydliadau Gwely a Brecwast

Mae Adran 4 yr adroddiad yn cyflwyno'r lefelau cyfartalog misol a blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer tai llety a sefydliadau gwely a brecwast. Gweler Adran 2 i gael manylion methodoleg yr arolwg.

Maint y Sampl

Cymerodd 137 o dai llety a sefydliadau gwely a brecwast ran yn yr arolwg yn 2009 h.y. rhoi gwybodaeth defnydd am o leiaf un mis yn ystod y flwyddyn. I sicrhau y medrir cymharu'r canlyniadau ar draws y misoedd, rhoddwyd cryn ymdrech i geisio cynnal lefel yr ymateb bob mis ac anogwyd gweithredwyr i roi ymatebion ar gyfer pob mis o'r flwyddyn.


Rhoddodd 56% o'r gweithredwyr (77) a gyfrannodd at yr arolwg ddata ar gyfer pob mis o'r flwyddyn. Rhoddodd 18% (24) arall ddata am bob mis heblaw un.

Yn ystod 2009, recriwtiwyd 7 o dai llety a sefydliadau gwely a brecwast i gymryd rhan yn yr arolwg. Fel gyda gwestai, roedd hyn yn rhannol yn ganlyniad mwy o gydweithredu gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, yn yr un cyfnod gadawodd 11 o sefydliadau yr arolwg neu gael eu dileu ohono. Cafodd sefydliadau eu dileu o'r arolwg gan nad oeddent wedi dychwelyd ffurflenni am gyfnod hir ac roedd y rhesymau am adael yr arolwg yn cynnwys afiechyd, henaint, prysurdeb, wedi ymddeol a sefydliadau'n cael eu gwerthu neu heb fod yn gweithredu mwyach.

Defnydd Cyfartalog Blynyddol Gwelyau ac Ystafelloedd

Yn gyffredinol, cofnodwyd cynnydd bychan yng nghyfraddau defnydd gwely blynyddol 2009 ar gyfer defnydd gwelyau a hefyd ddefnydd ystafelloedd, gan ddangos cynnydd mewn poblogrwydd tripiau gwyliau domestig o fewn Cymru (a'r DU) yn ystod 2009. Roedd hyn yn dilyn gostyngiad amlwg rhwng 2007 a 2008, pan mai'n debyg fod effaith y dirwasgiad economaidd a thywydd gwael yr haf wedi cyfrannu at y cwmp yn y galw ar gyfer y sector yma (bu gostyngiad o 4 pwynt canran mewn cyfraddau defnydd gwelyau rhwng 2007 a 2008). Mae cyfraddau defnydd yn y sector yma yn dal i fod yn gymharol isel (yr isaf a gofnodwyd ers 2002), gan adlewyrchu cyfnod anodd ar gyfer y sector tai llety a sefydliadau gwely a brecwast yng Nghymru.


Ffigur 4-1 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd – Cyfartaleddau Blynnyddol (%)



Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd

Cyflwynir y cyfraddau misol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd ynghyd â chyfartaleddau blynnyddol a gofnodwyd yn y sector tai llety a gwely a brecwast yn 2009 yn Ffigur 4-2 islaw.

Ffigur 4-2 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd 2009 (%)



Fel mewn blynnyddoedd blaenorol, mae natur dymhorol y sector yn amlwg gyda'r cyfraddau cyfartalog uchaf ar gyfer defnydd gwelyau ar gyfer tai llety a sefydliadau gwely a brecwast yn ystod y prif dymor twristiaeth (Mai i Medi). Cynyddodd defnydd gwelyau yn hanner gyntaf y flwyddyn o 13% ym mis Ionawr, gan gyrraedd brig o 51% ym mis Awst cyn gostwng i 15% ym mis Rhagfyr. Roedd y gyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd gwelyau yn 30%.

Dilynodd lefelau defnydd ystafelloedd batrwm tebyg gyda chyfartaledd blynnyddol o 38%.

Fel y dangosir yn Nhabl 4-1 islaw, roedd y ffigurau defnydd cyfartalog blynnyddol ar gyfer 2009 ychydig yn uwch nag yn 2008 (38% o gymharu â 37%). Ac eithrio mis Ionawr i fis

Mawrth, roedd cyfraddau defnydd ystafelloedd ar lefel fisol un ai'n gyfartal neu'n uwch na'r rhai a gofnodwyd yn 2008. Bydd cyfraddau mis Ebrill yn uwch oherwydd bod cyfnod gwyliau'r Pasg yn ystod y mis yn 2009 ac ym mis Mawrth yn 2008. Mae tystiolaeth o arolygon eraill yn awgrymu fod pobl yn fwy tebygol o gymryd gwyliau adeg y Pasg pan mae'r cyfnod yn ddiweddarach yn y flwyddyn gyda'r tywydd yn well a'r nosweithiau yn hirach.

Cyflwynir tueddiadau mewn cyfraddau misol defnydd gwelyau yn Atodiad 2a.


Tabl 4-1 - Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Ystafelloedd - Cyfartaleddau Misol (%)

	Defnydd ystafelloedd									
	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009
Ionawr	15	14	22	21	22	26	17	19	18	17
Chwefror	24	20	26	27	27	29	27	27	26	25
Mawrth	24	14	34	30	29	36	28	29	30	27
Ebrill	37	24	33	45	44	40	42	40	34	38
Mai	40	34	45	52	49	49	52	49	46	45
Mehefin	47	38	57	50	57	56	57	50	45	48
Gorffennaf	56	51	60	61	64	63	65	54	54	54
Awst	67	60	70	72	73	72	71	66	59	59
Medi	44	42	54	54	56	59	56	51	47	51
Hydref	31	32	41	39	43	41	43	39	38	39
Tachwedd	18	22	29	30	28	24	28	27	25	25
Rhagfyr	18	17	24	24	25	20	27	19	21	21
Cyfartaledd Blynnyddol	36	31	42	43	44	44	43	40	37	38

Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Mae Ffigur 4-3 islaw yn cyflwyno cyfraddau cyfartalog blynnyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer tai llety a sefydliadau gwely a brecwast ar gyfer pob rhanbarth yng Nghymru yn 2009. Cyflwynir y cyfraddau defnydd misol ar gyfer tai llety a sefydliadau gwely ar gyfer pob rhanbarth yng Nghymru yn Atodiad 2b a 2c yr adroddiad hwn.

Cyflwynir lefelau defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn ôl awdurdod unedol yn Atodiad 2d a 2e. Nid yw'r wybodaeth hon ar gael ym mhob rhanbarth oherwydd maint bychan y sampl.

Ffigur 4-3 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – Cyfartaledd Blynyddol yn ôl Rhanbarthau Cymru – 2009 (%)

Roedd y lefelau cyfartalog uchaf ar gyfer defnydd gwelyau yn y De Orllewin (33%) gyda'r cyfraddau defnydd ystafelloedd blynyddol uchaf mewn dau ranbarth: y De a'r De Ddwyrain, ill dau gyda chyfradd defnydd o 40%. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd lefelau defnydd yn y Canolbarth yn amlwg is, gan gofnodi 26% ar gyfer defnydd gwelyau a 33% ar gyfer defnydd ystafelloedd.

Y gwahaniaeth mwyaf rhwng y cyfraddau blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd a gofnodwyd yn 2009 oedd sefydliadau yn Ne Ddwyrain Cymru, lle mae'r gyfran o ddefnyddwyr busnes mewn ystafelloedd sengl yn debygol o fod yn uwch nag mewn rhanbarthau eraill.

Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Cyflwynir lefelau defnydd ystafelloedd ym mhob rhanbarth ers 2000 yn Nhabl 4-2 islaw.

Tabl 4-2 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Ystafelloedd yn ôl Rhanbarthau Cymru (%)

	Defnydd ystafelloedd									
	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009
Gogledd Cymru	31	29	38	40	42	44	43	41	35	39
Canolbarth Cymru	32	24	33	33	33	34	33	33	29	33
De Cymru	41	37	50	49	50	49	48	44	43	40
De Ddwyrain Cymru	43	37	52	52	52	51	49	46	43	40
De Orllewin Cymru	36	36	48	46	48	47	48	43	43	39
Cyfanswm Cymru	36	31	42	43	44	44	43	40	37	38


Roedd amrywiaeth amlwg ar draws y rhanbarthau yn ystod 2009 gyda dau o'r pum rhanbarth, y Gogledd a'r Canolbarth, yn cofnodi cynnydd o 4 pwynt canran mewn cyfraddau defnydd o gymharu â 2008. Fodd bynnag, nododd tri o'r pump rhanbarth ostyngiad mewn lefelau defnydd gyda'r De, De Ddwyrain a'r De Orllewin, oll yn gostwng rhwng 3 a 4 pwynt canran.

Canran Gwesteion Tramor

Fel y disgrifiwyd yn yr adran flaenorol (Adran 3), bu newid bychan yn y ffordd y cesglir data ar gyfer gwesteion tramor. Yn 2008, diweddarwyd y ffurflenni a ddefnyddir i gasglu data defnydd i roi mwy o ffocws iddynt a'u gwneud yn fwy effeithiol. Roedd un o'r newidiadau yn effeithio ar y ffordd y cesglir gwybodaeth am westeion tramor. Mewn blynyddoedd blaenorol, gofynnwyd i sefydliadau roi gwybodaeth ar nifer yr ymwelwyr newydd yn cyrraedd bob dydd (o'r Deyrnas Unedig a thramor) a chyflwynwyd y canran gwesteion tramor yn seiliedig ar gyfanswm nifer y cyraeddiadau. Ni chaiff yr wybodaeth hon ei chasglu bellach, felly fel canlyniad rydym wedi cyflwyno'r gyfran o arosiadau tramor fel canran nosweithiau gwely tramor (yn seiliedig ar gyfanswm nosweithiau gwely).

Yng ngoleuni'r newidiadau hyn, ac i sicrhau cysondeb bod ffigurau tramor ar draws y blynyddoedd yn cael eu cymharu ar yr un broses fethodolegol, rydym wedi gostwng faint o wybodaeth tueddiad a gyflwynir ar gyfer gwesteion tramor a chanolbwyntiwn yn yr adroddiad hwn ar ganlyniadau diweddaraf 2008 a 2009.

Ffigur 4.4 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – Canran Nosweithiau Gwely Tramor – 2009 (%)




Fel yn y tair blynedd ddiwethaf, cyrhaeddodd defnydd tramor uchafswm yn ystod mis brig yr haf sef Gorffennaf (17%) ac roedd ar ei isaf yn ystod mis Mawrth a mis Tachwedd pan gofnodwyd cyfradd o 6% a 7%. Roedd y canran cyfartalog blynyddol o westeion tramor mewn tai llety a sefydliadau gwely a brecwast yn 2009 yn 11% (1 pwynt canran yn is na'r gyfradd a gofnodwyd yn 2008).

Tueddiadau Canran Gwesteion Tramor

Ar sail fisol, roedd y gyfran o westeion tramor yn 2009 yn amlwg wahanol i 2008. Cofnodwyd cynnydd o rhwng 3 a 4 pwynt canran ym misoedd Ionawr, Chwefror a Hydref a


gostyngiad o rhwng 3 a 4 pwynt canran ym misoedd Mawrth, Ebrill, Gorffennaf a Medi. Yn gyffredinol, gorffennodd defnydd tramor y flwyddyn ychydig yn is na'r gyfradd a gofnodwyd yn 2008 ar 11%.

Ffigur 4-5 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – Tueddiadau mewn Canran Gwesteion Tramor




Fel y dangosir yn Ffigur 4-6 islaw, roedd canran gwesteion tramor ar draws gwahanol ardaloedd daearyddol Cymru yn amrywio o 8-20% (cyson gyda 2007 a 2008), gyda'r De Ddwyrain (sy'n cynnwys Caerdydd y brifddinas, fydd bob amser yn denu cyfran uwch o ymwelwyr tramor) yn cofnodi'r gyfran uchaf o ddefnyddwyr tramor (gostyngiad gan 1 pwynt canran o gymharu â 2008).

Ffigur 4-6 - Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast - Canran Gwesteion Tramor yn ôl Rhanbarth 2008 - 2009 (%)




Canran Gwesteion Busnes

Fel gyda gwestai, ers mis Chwefror 2001 gofynnwyd i weithredwyr tai llety a sefydliadau gwely a brecwast gofnodi nifer y gwesteion sy'n aros ar gyfer dibenion busnes.

Ffigur 4-7 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – Canran Gwesteion Tramor – 2009 (%)

Cyfran gyfartalog flynyddol gwesteion busnes mewn sefydliadau gwely a brecwast a thai llety yn 2009 oedd 21%, cynnydd o 1 pwynt canran o gymharu â 2008. Roedd canran gwesteion tramor ar ei uchaf ym mis Ionawr (53%), er bod hyn yn ostyngiad o 14 pwynt canran o gymharu â Ionawr 2008. Roedd y gyfran o westeion busnes ar ei isaf yn ystod mis Gorffennaf (10%).

Ffigur 4-8 – Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast– Canran Cyfartalog Blynyddol Gwesteion Busnes yn ôl Rhanbarth – 2009 (%)

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd canran gwesteion busnes yn y De Ddwyrain yn sylweddol uwch yn 2009 nag yn ardaloedd eraill Cymru. Mae'r patrwm hwn yn debyg i'r hyn a ddangosir ar gyfer gwestai, lle cofnododd y De Ddwyrain hefyd lefelau ddefnydd busnes uwch.

Dadansoddiad Manwl o'r Prif Ganlyniadau


Mae'r adran hon o'r adroddiad yn edrych yn fwy manwl ar wahanol fathau o dai llety a sefydliadau gwely a brecwast a gyfrannodd at yr arolwg ac unrhyw effaith a gafodd y ffactorau hyn ar lefelau defnydd gwelyau ac ystafelloedd.

Defnydd yn ôl maint Tŷ Llety/sefydliad Gwely a Brecwast

Oherwydd maint bychan y sampl yn llawer o'r categorïau maint mwy, dim ond ar gyfer dau gategori o dai llety a sefydliadau gwely a brecwast y cyflwynir cyfraddau defnydd: 1-3 ystafell a 4-10 ystafell.

Cyflwynir ffigurau defnydd misol cyfartalog gwelyau ac ystafelloedd yn ôl maint tŷ llety a sefydliad gwely a brecwast yn Atodiad 2b a 2c.

Ffigur 4-9 – Defnydd Blynnyddol yn ôl Maint Tŷ Llety/Sefydliad Gwely a Brecwast – 2009 (%)



Yn debyg i'r sector gwestai ac fel yr adroddwyd yn flaenorol, byddai'n ymddangos fod perthynas gadarnhaol rhwng maint sefydliadau, gyda chyfraddau defnydd blynnyddol gwelyau ac ystafelloedd yn uwch (10% a 13% yn yr un drefn) yn y sefydliadau mwy gyda 4-10 ystafell. Mae'r defnydd uwch yn y sefydliadau hyn yn debygol o fod yn ganlyniad nifer o ffactorau yn cynnwys y ffaith fod sefydliadau mwy yn debycach o fod ar agor drwy'r flwyddyn a hefyd yn fwy tebygol o ddenu gwesteion busnes.

Tabl 4-2 – Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynnyddoedd Defnydd Ystafelloedd yn ôl Maint Tŷ Llety/Sefydliad Gwely a Brecwast (%)

	Defnydd Cyfartalog Blynnyddol Ystafelloedd									
	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009
1-3 ystafell	32	26	33	34	36	36	34	33	31	30
4-10 ystafell	40	36	45	45	48	48	47	47	40	43


Roedd cyfraddau defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer sefydliadau gyda 1-3 ystafell ychydig yn is yn 2009 na'r rhai a adroddwyd yn 2008 (gostyngiad o 1 pwynt canran). Fodd bynnag, nododd sefydliadau gyda 4-10 ystafell gynnydd o 3 pwynt canran.

Defnydd yn ôl Tariff

Fel yn yr arolwg gwestai, mae'r ffigurau tariff a ddefnyddiwyd yn yr arolwg yn cyfeirio at y swm a godir fesul person am ystafell ddwbl neu ystafell gefell, yn cynnwys brecwast. Rhoddir manylion y lefelau defnydd misol ar gyfer gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob un o'r categorïau tariff a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad yn Atodiad 2b a 2c yr adroddiad. Oherwydd maint y sampl, dylid nodi mai dim ond ar gyfer y sefydliadau hynny gyda thariff o rhwng £20 a £40 y cyflwynir canlyniadau.


Mae Ffigur 4-10 islaw yn cyflwyno ffigurau defnydd blynyddol gwelyau ac ystafelloedd yn ôl tariff ar gyfer 2009.

Ffigur 4-10 – Defnydd Blynyddol yn ôl Tariff Tŷ Llety/Sefydliad Gwely a Brecwast – 2009 (%)



Mae Ffigur 4-11 islaw yn cyflwyno cyfraddau defnydd cyfartalog gwelyau yn ôl tariff rhwng 2004 a 2009. Dylid nodi nad oes ffigurau cymharol cyn hyn ar gael oherwydd newidiadau yn y bandiau tariff a ddefnyddiwyd.

Ffigur 4-11 – Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Tariff Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast (%)




Bu gostyngiad graddol yn y cyfraddau blynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd ar gyfer sefydliadau sy'n codi tâl o £20-29.99 rhwng 2004 a 2009, o 43% i 30%. Gwelodd sefydliadau sy'n codi £30-£39.99 hefyd ostyngiad tebyg yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yn amrywio o 49% yn 2004 i 37% yn 2009. Roedd maint y sampl ar gyfer sefydliadau'n codi dan £20 yn rhy fach i'w ddangos.

Defnydd yn ôl Lleoliad

Dadansoddwyd cyfraddau defnydd yn ôl lleoliad tai llety a sefydliadau gwely a brecwast – mewn dinas/tref fawr, tref fach, ar lan y môr neu mewn lleoliadau gwledig/pentref. Cyflwynir y lefelau defnydd misol ar gyfer gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob math o leoliad yn Atodiad 2b a 2c.

Fel y cyflwynir islaw ac y cofnodwyd yn flaenorol, roedd lefelau defnydd ar gyfer sefydliadau mewn dinasoedd a threfi mawr yn amlwg uwch na'r rhai mewn trefi bach neu ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, oherwydd maint cymharol fach y sampl, mae angen rhywfaint o ofal wrth ddehongli'r canlyniadau hyn. Fel yn y ddwy flynedd ddiwethaf, cofnodwyd y cyfraddau ail uchaf yn 2009 gan sefydliadau mewn ardaloedd glan môr gyda chyfraddau blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd o 35% a 42% yn yr un drefn.

Ffigur 4-12 – Defnydd Blynyddol yn ôl Lleoliad Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – 2009 (%)



Tabl 4-3 – Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Lleoliad Tŷ Llety/Sefydliad Gwely a Brecwast (%)

	Defnydd Cyfartalog Blynyddol Ystafelloedd									
	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009
Dinas/tref fawr	*	55	67	70	63	64	67	64	57	54
Tref fach	37	28	43	39	38	42	41	40	38	40
Glan môr	39	39	37	44	46	47	47	46	44	42
Gwledig/pentref	33	27	41	40	41	41	40	36	33	33

* Data heb fod ar gael ohewydd newid yn y bandiau ar gyfer dadansoddi

Cofnododd sefydliadau mewn dinasoedd a threfi mawr ostyngiad o 3% o gymharu â 2008.


Defnydd yn ôl Graddiad

Fel gyda gwestai, dadansoddwyd cyfraddau defnydd ar gyfer tai llety a sefydliadau gwely a brecwast yn ôl eu graddiad dan y Cynllun Graddiad Seren a weinyddir gan Croeso Cymru (gynt Bwrdd Croeso Cymru), a gyflwynwyd yn 1999.

Oherwydd maint bach sampl sefydliadau gyda 5 seren, nid oes dadansoddiad ar gyfer y graddiad yma.


Mae Ffigur 4-13 islaw yn cyflwyno ffigurau blynyddol defnydd gwelyau a blynyddol yn ôl graddiad am 2009.

Ffigur 4-13 – Defnydd yn ôl Graddiad Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast – 2009 (%)



Fel yn y tair blynedd vlaenorol, roedd gan sefydliadau gyda graddiad lefelau cyfartalog uwch ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd na rhai heb raddiad. Er enghraifft, cofnododd rhai gyda graddiad 4 seren gyfraddau cyfartalog blynyddol 15 a 16 pwynt canran yn uwch na rhai nad oeddent yn rhan o gynllun graddiad Croeso Cymru. Fel y dangosir yn ffigur 4-14 islaw, sefydliadau graddiad 3 seren oedd yr unig categori i gofnodi cynnydd mewn cyfraddau defnydd rhwng 2008 a 2009 (gan gynyddu gan 3 pwynt canran).

Ffigur 4-14 – Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Graddiad Tai Llety/Sefydliadau Gwely a Brecwast (%)



Cyflwynir ffigurau cyfartalog misol a blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd y gwahanol raddiadau yn Atodiad 2b a 2c yr adroddiad.


5. Pob Llety â Gwasanaeth

Mae Adran 5 yr adroddiad yn cyflwyno lefelau cyfartalog misol a blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer y gwahanol fathau o lety â gwasanaeth h.y. gwestai, tai llety a sefydliadau gwely a brecwast.

Defnydd Cyfartalog Blynyddol Gwelyau ac Ystafelloedd


Roedd y cyfraddau blynyddol cyfartalog ar gyfer defnydd pob llety â gwasanaeth yr un faint â'r rhai a gofnodwyd yn 2008. Arhosodd cyfraddau defnydd gwelyau yn 38% a defnydd ystafelloedd yn 52%.

Ffigur 5-1 – Llety â Gwasanaeth – Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd – Cyfartaleddau Blynyddol (%)



Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd

Cyflwynir y cyfraddau defnydd misol ar gyfer gwelyau ac ystafelloedd ynghyd â'r cyfartaleddau blynyddol a gofnodwyd ar gyfer pob llety â gwasanaeth yn Ffigur 5-2 ar y dudalen nesaf.

Ffigur 5-2 – Pob Llety â Gwasanaeth – Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd – 2009 (%)

Yn 2009, cyrhaeddodd y cyfraddau cyfartalog ar gyfer defnydd ystafelloedd a gwelyau ar gyfer pob llety â gwasanaeth eu brig yn ystod mis Awst (55% a 67% yn yr un drefn). Cofnodwyd cynnydd o 9 pwynt canran yn y gyfradd gyfartalog ar gyfer defnydd gwelyau ac 8 pwynt canran yn y gyfradd gyfartalog ar gyfer defnydd ystafelloedd rhwng mis Mawrth a mis Ebrill, sy'n dangos effaith cyfnod Gwyliau'r Pasg oedd ym mis Ebrill yn 2009 ac ym mis Mawrth yn 2008.


Canran Gwesteion Tramor

Gofynnir i weithredwyr nodi nifer y gwesteion sy'n aros yn eu sefydliad bob nos yn ôl dinasyddiaeth - DU a thramor ar eu ffurflen defnydd misol. Dylid nodi nad yw pob ymatebydd yn rhoi'r wybodaeth hon.

O ddechrau 2008, ni chasglwyd gwybodaeth cyraeddiadau ar gyfer gwesteion DU a Thramor, ac mae hynny wedi effeithio ar y ffordd y cafodd data ar gyfer ymatebwyr tramor ei gyfrif. Yn flaenorol, gofynnwyd i sefydliadau roi gwybodaeth ar nifer y cyraeddiadau newydd ar gyfer pob diwrnod (DU a hefyd dramor) a chyflwynwyd y canran gwesteion tramor yn seiliedig ar gyfanswm nifer y cyraeddiadau. Ni chaiff yr wybodaeth hon ei chasglu bellach, felly fel canlyniad rydym wedi cyflwyno'r gyfran o arosiadau tramor fel canran o nosweithiau gwely tramor (yn seiliedig ar gyfanswm nosweithiau gwely).

Yng ngoleuni'r newidiadau hyn, ac i sicrhau cysondeb yn y ffordd y caiff ffigurau tramor ar draws y blynyddoedd eu cymharu yn seiliedig ar yr un broses fethodolegol, rydym wedi gostwng faint o wybodaeth dueddiadol a gyflwynir ar gyfer gwesteion tramor a chanolbwyntiwn yn yr adroddiad hwn ar ddata tueddiad 2008 o gymharu â chanlyniadau diweddaraf 2009.

Ffigur F-3 – Pob Llety â Gwasanaeth – Canran Nosweithiau Gwely Tramor – 2008-2009 (%)



Roedd 2009 yn gyson gyda 2008 ar draws y flwyddyn gyda mwyafrif y misoedd yn cofnodi newidiadau bach mewn lefelau defnydd rhwng y ddwy flynedd. Yr eithriad oedd mis Medi a gofnododd ostyngiad o 4 pwynt canran mewn cyfraddau defnydd tramor o gymharu â 2008.

6. Bythynnod a Fflatiau Hunanddarpar

Mae'r adran hon yn amlinellu canlyniadau lefel defnydd allweddol ar gyfer bythynnod a fflatiau llety hunanddarpar ac yn crynhoi'r wybodaeth a gafwyd o sampl o weithredwyr annibynnol ac asiantaethau sy'n cynnig bythynnod a fflatiau hunanddarpar yng Nghymru. Cynlluniwyd y sampl i fod yn gynrychioladol i raddau helaeth o'r ystod o lety wedi'i ddodrefnu a osodir drwy weithredwyr o'r fath. Mesurir defnydd ar lefel eiddo unigol drwy fynegi nifer yr wythnosau a osodwyd bob mis fel cyfran o'r wythnosau a'r unedau sydd ar gael i'w rhentu.

Dylid nodi nad oedd sampl digonol yn 2007 o asiantaethau hunanddarpar (asiantaethau gosod yn cynnig bythynnod a fflatiau hunanddarpar yng Nghymru) i gynnal dadansoddiad ar wahân ar eu cyfer. Oherwydd hyn, nid yw'n bosibl gwneud cymariaethau tueddiad rhwng 2008 a 2009.

Maint y Sampl

Mae Tabl 6-1 drosodd yn dangos lefelau ymateb i'r arolwg drwy gydol 2009 ar gyfer y gwahanol fathau llety. Mae'n dangos y nifer a ddychwelodd yr arolwg bob mis a'r nifer sydd ar gael i'w gosod oedd yn ffurfio'r sampl ar gyfer dadansoddi. Ni anfonwyd ffurflenni misol at weithredwyr y gwyddem fod eu hunedau ar gau yn ystod misoedd y gaeaf ond cawsant eu cynnwys wrth gyfrif lefel yr ymateb.


Tabl 6-1 – Maint Sampl – Bythynnod a Fflatiau Hunanddarpar

	Nifer unedau		
	Anfon Ffurflenni	Ar Gau	Sampl Dadansoddi
Ionawr	814	131	683
Chwefror	823	117	706
Mawrth	880	76	804
Ebrill	960	7	953
Mai	1,005	0	1,005
Mehefin	726	0	726
Gorffennaf	732	0	732
Awst	735	0	735
Medi	716	0	716
Hydref	671	4	667
Tachwedd	600	27	573
Rhagfyr	642	31	611
Cyfartaledd	775	33	743

Ar gyfartaledd, dychwelwyd 149 o ffurflenni bob mis yn cyfeirio at 775 uned, gan roi maint sylfaen sampl cyfartalog o 743 i'w dadansoddi.

Defnydd Misol Unedau


Mae Ffigur 6-1 islaw'n cyflwyno cyfraddau defnydd blynyddol ar gyfer 2008 a 2009 ar gyfer gweithredwyr annibynnol ac asiantaethau.

Ffigur 6-1- Defnydd Misol Unedau – Bythynnod a Fflatiau CYFAN (%)

Yn ystod 2009 roedd cryn amrywiaeth mewn lefelau defnydd drwy gydol y flwyddyn gan adlewyrchu natur dymhorol y sector llety yma. Cynyddodd defnydd cyfartalog unedau o 20% ym mis Ionawr i frig o 75% ym mis Awst cyn gostwng i 22% ym mis Tachwedd. Bu cynnydd sylweddol mewn lefelau cyfartalog defnydd unedau ym mis Rhagfyr i 48%, yn fwyaf tebygol oherwydd y galw cynyddol yn ystod cyfnod gwyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.


Roedd cyfraddau defnydd 2009 2 bwynt canran yn uwch nag yn 2008 (50% o gymharu â 48%) a gafodd ei helpu gan gyfraddau defnydd uchel yn ystod mis Chwefror a mis Rhagfyr. Gostyngodd cyfraddau defnydd gan chwe pwynt canran ym mis Awst o gymharu â 2008. Fel arall, roedd cyfraddau defnydd yn y misoedd eraill o fewn ychydig bwyntiau canran i'w gilydd yn y ddwy flwyddyn.

Mae Ffigur 6-2 islaw'n cyflwyno cyfraddau blyneddol defnydd 2009 ar gyfer gweithredwyr annibynnol. Fel y disgrifir yn gynharach yn yr adroddiad, rhoddwyd data o 2007 a 2008 hefyd i ddangos tueddiadau dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf.

Ffigur 6-2 – Defnydd Misol Unedau – Bythynnod a Fflatiau - Annibynnol(%)

Cyfradd defnydd cyfartalog unedau ar gyfer gweithredwyr annibynnol yn 2009 oedd 54%, 1 pwynt canran yn uwch na'r hyn a gofnodwyd yn 2008. Roedd ffigurau defnydd yn gymharol gyson gyda'r flwyddyn flaenorol ac eithrio misoedd Mawrth ac Ebrill sy'n adlewyrchu fod cyfnod gwyliau'r Pasg ym mis Ebrill yn 2009 ac ym mis Mawrth yn 2008. Mae lefelau defnydd yn parhau i fod yn is na'r rhai a gofnodwyd yn 2007 gan adlewyrchu'r effaith a gafodd y dirywiad economaidd, cynnydd mewn costau tanwydd a chostau a thywydd cyffredinol wael yn ystod yr haf (yn arbennig yn 2008) ar gyfer llawer o'r DU, ar y sector yma yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Mae Ffigur 6-3 islaw'n cyflwyno ffigurau defnydd blynyddol ar gyfer llety hunanddarpar a osodir gan asiantaethau ar gyfer 2008 a 2009. Fel y nodwyd uchod, nid yw defnydd data ar gyfer anheddau hunanddarpar a osodwyd gan asiantaethau ar gael ar gyfer 2007.


Ffigur 6-3 – Defnydd Misol Unedau – Bythynnod a Fflatiau - Asiantaeth (%)

Yn 2009, 45% oedd y gyfradd flynyddol gyfartalog ar gyfer llety hunanddarpar a osodir gan asiantaethau, yr un gyfradd defnydd ag a gofnodwyd yn 2008. Cynyddodd y ffigur hwn i 50% ar draws misoedd brig twristiaeth o Fai i Hydref. Cofnodwyd tueddiad tebyg i'r gweithredwyr annibynnol gyda chyfraddau'n codi o 16% yn Ionawr i frig o 63% ym mis Awst cyn gostwng i 17% ym mis Tachwedd. Hyd yn oed yn fwy felly na gyda gweithredwyr annibynnol, cofnodwyd cynnydd sylweddol ym mis Rhagfyr o gymharu â mis Tachwedd gan adlewyrchu tymor gwyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Mae'n amlwg fod mis Rhagfyr yn fis da iawn i unedau a osodir gan asiantaeth gyda lefelau defnydd 28 pwynt canran yn uwch nag yn 2008.

Tueddiadau Rhanbarthol

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi'r lefelau defnydd ar draws gwahanol ranbarthau Cymru ar gyfer bythynnod a fflatiau. Gan nad oedd unrhyw ffigurau defnydd tueddiad 2007 ar gael ar gyfer llety hunanddarpar a osodwyd gan asiantaethau, rydym wedi cyflwyno ffigurau defnydd gweithredwyr annibynnol 2008 a 2009 wrth ochr cyfraddau tebyg cymharol ar gyfer 2007. Mae tabl dan bob siart yn dangos ffigurau defnydd cyfun 2008 a 2009 (annibynnol ac asiantaeth) ar gyfer pob rhanbarth.


Ffigur 6-4 – Defnydd Unedau Misol – Gogledd Cymru - Annibynnol (%)



Tabl 6-2 – Defnydd Misol Unedau – Gogledd Cymru – 2008 - 2009 CYFAN (%)


	Ion	Chw	Ma	Ebr	Mai	Me	Go	Aw	Med	Hyd	Ta	Rh	Cyf (Mai-H)	Defnydd Unedau Cyf BI
2008	21	41	36	49	49	56	59	68	56	48	23	32	56	45
2009	29	38	38	58	66	70	81	89	77	60	38	44	74	57

Yn gyffredinol, Gogledd Cymru gofnododd y cyfraddau defnydd blynyddol uchaf (57%) o'r holl ranbarthau, 12 pwynt canran yn uwch na 2008. Cofnodwyd cynnydd bob mis, ar wahân i fis Chwefror, mewn cyfraddau defnydd o gymharu â 2008, gan ddangos blwyddyn gadarnhaol ar gyfer y sector yn y rhanbarth yma.

Ffigur 6-5 – Defnydd Misol Unedau – Canolbarth Cymru – Annibynnol (%)**Tabl 6-3 – Defnydd Misol Unedau – Canolbarth Cymru – 2008-2009 CYFAN (%)**


	Ion	Ch	Maw	Eb	Mai	Meh	Gor	Aws	Med	Hyd	Ta	Rh	Cyf (Mai-H)	Defnydd Unedau Cyf BI
2008	6	18	32	46	63	65	61	84	68	54	27	46	66	48
2009	12	51	47	38	38	39	50	60	46	33	13	54	44	43

Gostyngodd cyfraddau defnydd yn y Canolbarth gan 5 pwynt canran yn 2008, gyda'r prif dymor o fis Mai i fis Hydref yn neilltuoel o isel o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda gostyngiad o 22 pwynt canran wedi'i gofnodi.

Ffigur 6-6 – Defnydd Misol Unedau – De Cymru - Annibynnol (%)**Tabl 6-4 – Defnydd Misol Unedau – De Cymru – 2008 - 2009 CYFAN (%)**

														Defnydd Unedau
	Ion	Ch	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gor	Aws	Med	Hyd	Ta	Rh	Cyf (Mai-H)	Cyf Bl.
2008	41	51	48	46	54	53	72	90	66	51	29	46	64	54
2009	22	37	34	56	52	67	74	86	65	47	21	37	65	50

Roedd lefelau defnydd yn Ne Cymru yn debyg i'r flwyddyn flaenorol, gyda chyfartaledd Mai i Hydref yn cynyddu ychydig gan 1 pwynt canran.


Ffigur 6-7 – Defnydd Misol Unedau – De Ddwyrain Cymru - Annibynnol (%)

Tabl 6-5 – Defnydd Misol Unedau – De Ddwyrain Cymru – 2008 - 2009 CYFAN (%)

	Ion	Ch	Ma	Eb	Mai	Meh	Gor	Aws	Med	Hyd	Ta	Rh	Cyf (Ma-H)	Defnydd Unedau Cyf BI
2008	25	56	47	57	64	63	77	89	75	73	49	63	73	61
2009	28	28	29	54	46	68	83	83	67	58	38	59	67	53

Cofnododd rhanbarth y De Ddwyrain ostyngiad o 8 pwynt canran mewn lefelau defnydd ymysg gweithredwyr annibynnol. Roedd Chwefror a Mawrth yn neilltuol o isel o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Dylid nodi nad oedd data ar gael ar gyfer unedau hunanddarpar a osodwyd gan asiantaethau yn rhanbarth y De Ddwyrain yn ystod 2009.

Ffigur 6-8 – Defnydd Misol Unedau – De Orllewin Cymru - Annibynnol (%)**Tabl 6-6 – Defnydd Misol Unedau – De Orllewin Cymru – 2008 - 2009 CYFAN (%)**

	Ion	Ch	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gor	Aws	Med	Hyd	Ta	Rh	Cyf (Ma-H)	Defnydd Unedau Cyf BI
2008	42	50	49	45	53	53	72	90	66	44	22	39	63	52
2009	20	40	36	56	53	67	73	86	65	44	17	29	65	49

Gostyngodd lefelau defnydd ymysg gweithredwyr annibynnol yn y De Orllewin ychydig gan 3 pwynt canran ar draws y flwyddyn. Perfformiwyd yn well yn y prif dymor gyda chynnydd bychan o 2 pwynt canran rhwng mis Mai a mis Hydref.

Dylid nodi nad oedd unrhyw ddata ar gael ar gyfer unedau hunanddarpar a osodwyd gan asiantaethau yn rhanbarth y De Orllewin yn ystod 2009.

Defnydd yn ôl Lleoliad – Arfordirol o gymharu â Mewndirol

Dadansoddwyd data defnydd ar gyfer unedau mewn lleoliadau arfordirol a mewndirol. Mae Tabl 6-7 islaw yn dangos cyfraddau defnydd ar gyfer gweithredwyr annibynnol ynghyd â thueddiadau data 2007 a 2008.

Tabl 6-7 – Defnydd Misol Unedau yn ôl Lleoliad – Annibynnol (%)

	Lleoliadau arfordirol Defnydd Unedau (%)			Lleoliadau mewndirol Defnydd Unedau (%)		
	2007	2008	2009	2007	2008	2009
Ionawr	20	21	25	24	22	19
Chwefror	40	44	44	40	40	35
Mawrth	47	47	40	37	41	33
Ebrill	60	55	51	45	50	58
Mai	74	67	70	61	63	55
Mehefin	83	72	76	66	64	67
Gorffennaf	90	78	85	79	77	76
Awst	95	93	95	91	89	86
Medi	78	72	79	65	69	66
Hydref	62	49	58	56	55	49
Tachwedd	29	23	21	38	29	24
Rhagfyr	36	42	34	44	44	36
Cyfartaledd Blyneddol	60	55	57	54	54	50

Fel yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, perfformiodd lleoliadau arfordirol yn well na lleoliadau mewndir ymysg gweithredwyr annibynnol; roedd y gwahaniaeth yn 7 pwynt canran yn 2009.

Fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd, tueddai lleoliadau arfordirol i gofnodi lefelau defnydd uwch drwy gydol y flwyddyn ac eithrio misoedd Ebrill, Tachwedd a Rhagfyr.

Tabl 6-8 – Defnydd Unedau Misol yn ôl Lleoliad – CYFAN (%)


	Lleoliadau Arfordirol Defnydd Unedau (%)		Lleoliadau Mewndirol Defnydd Unedau (%)	
	2008	2009	2008	2009
Ionawr	21	24	24	21
Chwefror	44	43	41	36
Mawrth	47	40	42	35
Ebrill	55	51	49	60
Mai	66	70	60	60
Mehefin	72	76	64	67
Gorffennaf	78	85	74	76
Awst	93	95	86	87
Medi	72	79	67	69
Hydref	49	58	50	50
Tachwedd	23	21	24	28
Rhagfyr	42	34	39	41
Cyfartaledd Blynnyddol	55	56	52	52

Wrth gymharu cyfraddau defnydd yn ôl lleoliad ar draws pob llety hunanddarpar (annibynnol ac asiantaeth), cofnododd lleoliadau arfordirol gyfraddau uwch na lleoliadau mewndirol - gwahaniaeth o 4 pwynt canran. Dim ond ym misoedd Ebrill, Tachwedd a Rhagfyr y cofnodwyd cyfradd uwch ar gyfer lleoliadau mewndirol.

Defnydd yn ôl Tariff

Cyflwynwyd elfen newydd ar gyfer adroddiadau yn 2008 ar gyfer bythynnod a fflatiau - dadansoddwyd cyfraddau defnydd yn ôl yr uchafswm tariff wythnosol a godwyd yn ystod y mis. Rhoddir manylion cyfraddau defnydd misol unedau ar gyfer tariff a ddadansoddwyd yn ôl asiantaeth/gweithredwyr asiantaeth yn Atodiad 4a yr adran hon o'r adroddiad.

Cyflwynir y cyfraddau cyfartalog blynnyddol ar gyfer defnydd unedau yn ôl tariff yn Ffigur 6-9 islaw.

Ffigur 6-9 Defnydd Cyfartalog Blynnyddol Unedau yn ôl Tariff (%)

Yn gyson gyda 2008, unedau'n codi £300-£499.99 a £500-£799.99 gofnododd y lefelau defnydd uchaf yn 2009 (54% a 56% yn yr un drefn).

Mae Tabl 6-9 islaw yn dangos cyfraddau defnydd misol ar draws pob band tariff. Mae manylion pellach dan Atodiad 4a.

Tabl 6-9 – Defnydd Cyfartalog Misol Unedau yn ôl Tariff (%)

	Tariff			
	Defnydd Unedau (%)			
	<£299.99	£300 -£499.99	£500 - £799.99	£800+
Ionawr	22	18	25	3*
Chwefror	41	41	37	11*
Mawrth	30	40	37	23*
Ebrill	57	63	63	56
Mai	56	59	66	66
Mehefin	46	72	80	75
Gorffennaf	54	81	85	82
Awst	77	85	90	72
Medi	68	76	73	65
Hydref	45	58	53	55
Tachwedd	17	25	23	18
Rhagfyr	19	33	36	44
Cyfartaledd Blynnyddol	44	54	56	49


*Sampl <5

Cofnodwyd tueddiad cyffredinol tebyg ar gyfer y pedwar band tariff ar draws y flwyddyn. Cofnododd llety gyda thariff o £800+ gyfraddau defnydd uwch ym mis Rhagfyr o gymharu â'r bandiau tariff eraill. Mae hyn yn fwyaf tebygol o fod oherwydd y galw cynyddol am unedau ar ben uchaf y farchnad dros gyfnod gwyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Cofnododd unedau yn y band tariff £300-£499.99 a £500-£799.99 gyfnod cryf dros wyliau'r Pasg ym mis Ebrill (y ddau yn 63%).

Defnydd yn ôl Graddiad

Dadansoddwyd cyfraddau defnydd ar gyfer unedau yn ôl eu haelodaeth o Gynllun Graddiad Croeso Cymru. Mae Ffigur 6-10 ar y dudalen nesaf dangos y cyfraddau cyfartalog blyneddol ar gyfer defnydd unedau yn ôl graddiad.

Ffigur 6-10 – Defnydd Cyfartalog Blyneddol Unedau yn ôl Graddiad (%)



Unedau gyda graddiad pum seren gofnododd y cyfraddau defnydd uchaf ar 58%. Mae hyn 12 pwynt canran yn uwch na'r unedau nad oeddent yn rhan o gynllun graddiad Croeso Cymru. Dylid nodi nad oedd graddiad un seren gan unrhyw unedau yn arolwg eleni.

Mae Tabl 6-10 islaw yn rhoi dadansoddiad o gyfraddau defnydd misol yn ôl graddiad.

Tabl 6-10 – Defnydd Cyfartalog Misol Defnydd Unedau yn ôl Graddiad (%)

	Graddiad Seren				
	Defnydd Unedau (%)				
	2 Seren	3 Seren	4 Seren	5 Seren	Dim graddiad
Ionawr	18	29	19	20	14
Chwefror	30	45	40	35	48
Mawrth	39	30	34	39	71
Ebrill	59	39	55	66	44
Mai	66	54	49	77	46
Mehefin	62	68	63	81	45
Gorffennaf	77	72	77	87	55
Awst	97	83	86	96	65
Medi	75	64	64	81	53
Hydref	47	50	45	63	36
Tachwedd	28	27	18	23	18
Rhagfyr	43	37	36	30	56
Cyfartaledd Blyneddol	53	50	49	58	46

Roedd y cyfraddau defnydd a gofnodwyd ar gyfer unedau gradd pum seren yn uwch na'r ffigurau cyfartalog yn ystod misoedd brig yr haf o fis Mehefin i fis Medi ond cyfraddau is yn ystod cyfnod gwyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd ym mis Rhagfyr. Unedau gyda graddiad tair seren a gofnododd y cyfraddau defnydd isaf ar draws misoedd brif yr haf, sef mis Gorffennaf a mis Awst.

7. Cartrefi Gwyliau Carafan a Chabannau

Yn yr adran hon adroddwn ar yr wybodaeth a gasglwyd gan weithredwyr yn cynnig carafannau sefydlog (a/neu gabannau) ar osod. Caiff defnydd ei fesur ar gyfer nifer yr unedau a osodwyd yn ystod y cyfnod adrodd hyd at y cyfanswm sydd ar gael i'w gosod yn ystod y cyfnod hwnnw.

Maint y Sampl

Mae Tabl 7-1 islaw yn rhoi manylion lefelau ymateb i'r arolwg drwy gydol 2009 ar gyfer y gwahanol fathau llefy. Mae'n dangos y nifer a ddychwelodd ffurflen i'r arolwg bob mis a'r nifer unedau oedd ar gael i'w gosod oedd yn ffurfio'r sampl ar gyfer dadansoddi. Ni anfonwyd ffurflenni misol at weithredwyr y gwyddem fod eu hunedau ar gau yn ystod misoedd y gaeaf, ond cawsant eu cynnwys wrth gyfrif y lefelau ymateb.

Tabl 7-1 – Maint Sampl – Cartrefi Gwyliau Carafan


	Nifer parciau		
	Dychwelyd Ffurflen	Ar gau	Sampl Dadansoddi
Ionawr	Dim ar gael	Dim ar gael	Dim ar gael
Chwefror	Dim ar gael	Dim ar gael	Dim ar gael
Mawrth	40	17	23
Ebrill	31	0	31
Mai	30	0	30
Mehefin	29	0	29
Gorffennaf	28	0	28
Awst	28	0	28
Medi	28	0	28
Hydref	25	0	24
Tachwedd	Dim ar gael	Dim ar gael	Dim ar gael
Rhagfyr	Dim ar gael	Dim ar gael	Dim ar gael
Cyfartaledd	30	2	28

Ar gyfartaledd, dychwelwyd 30 ffurflen bob mis, gan roi maint sampl cyfartalog o 28 i'w dadansoddi.

Defnydd Misol Unedau

Mae Ffigur 7-1 islaw'n cyflwyno'r cyfraddau defnydd ar gyfer 2009 ar gyfer cartrefi gwyliau carafan. Fel y nodwyd yn yr adran methodoleg uchod, casglwyd ffigurau defnydd yn ystod 2009 yn ystod Mawrth-Hydref. Oherwydd y nifer isel o ffurflenni defnydd a ddychwelwyd ym mis Mawrth, dim ond ar gyfer cyfnod mis Ebrill – mis Hydref y cyflwynir ffigurau islaw.

Ffigur 71 – Defnydd Misol Unedau – Cartrefi Gwyliau Carafan (%)



Roedd cryn amrywiaeth mewn lefelau defnydd drwy gydol y flwyddyn. Ar draws y cyfnod brig o chwe mis, amrywai ffigurau defnydd o frig o 72% ym mis Ebrill i 96% ym mis Awst.

Wrth gymharu gyda 2008, cynyddodd y defnydd ar draws pob mis gyda chynnydd neilltuol yn y lefelau a gofnodwyd ym mis Hydref (cynnydd o 45 pwynt canran o gymharu â mis Hydref 2008).


Gan adlewyrchu hyn, cynyddodd cyfraddau defnydd ar draws y cyfnod Mai i Hydref gan 20 pwynt canran rhwng 2008 a 2009. Mae tystiolaeth o arolygon eraill yn cefnogi'r farn y bu cynnydd mewn triapiau gwyliau domestig yn ystod 2009 a gostyngiad cyfatebol yn y galw am wyliau tramor ymysg preswylwyr y DU. Bu hyn yn neilltuol o amlwg mewn lleoliadau glan môr wrth i bobl gymryd gwyliau yn nes adref. O'r holl sectorau llety, cartrefi gwyliau carafan fwynhaodd y tymor mwyaf llwyddiannus gyda lefelau defnydd ar draws y flwyddyn yn llawer uwch nag a adroddwyd yn ystod 2008.

Tueddiadau Rhanbarthol

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi lefelau defnydd cartrefi gwyliau carafan ar draws y pump rhanbarth yng Nghymru. Dylid nodi fod maint y samplau ar lefel ranbarthol yn isel ac felly bod angen gofal wrth ddehongli'r canlyniadau.


Nodyn: Dim ond un ffurflen defnydd a ddychwelwyd ar gyfer rhanbarth y De Ddwyrain, felly ni chyflwynir canlyniadau.

Ffigur 7-2 – Defnydd Misol Unedau – Cartrefi Gwyliau Carafan – Gogledd Cymru (%)




Fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd, o gymharu â'r rhanbarthau eraill, tueddai'r Gogledd i fod â chyfraddau defnydd is, cyfartaledd yn ystod cyfnod Mai i Hydref o 63%. Serch hynny, cynyddodd cyfraddau defnydd rhwng mis Mai a mis Hydref gan 10 pwynt canran o gymharu â 2008.

Ffigur 7-3 – Defnydd Misol Unedau – Cartrefi Gwyliau Carafan – Canolbarth (%)




Cofnododd y Canolbarth gyfartaledd o 72% ar draws y cyfnod Mai i Hydref, 10 pwynt canran yn is nag yn 2008 ar gyfer y cyfnod yma.

Ffigur 7-4 – Defnydd Misol Unedau – Cartrefi Gwyliau Carafan – De Cymru (%)



Cofnododd De Cymru gynnydd mawr mewn lefelau defnydd ar draws y cyfnod Mai i Hydref o 26 pwynt canran gyda chyfradd defnydd o 91%.

Ffigur 7-5 – Defnydd Misol Unedau – Cartrefi Gwyliau Carafan – De Orllewin (%)

Cofnododd rhanbarth y De Orllewin gynnydd o 5 pwynt canran mewn lefelau defnydd yn ystod Mai i Hydref 2009. Gan adlewyrchu'r rhanbarthau eraill, cofnodwyd lefelau neilltuol o uchel ym mis Hydref.

Defnydd yn ôl Lleoliad – Arfordirol o gymharu â Mewndirol

Dadansoddwyd data defnydd ar gyfer cartrefi gwyliau carafan mewn lleoliadau arfordirol a mewndirol. Mae Tabl 7-2 islaw yn dangos cyfraddau defnydd ar gyfer cartrefi gwyliau carafan gyda data tueddiad 2006 a 2007.

Tabl 7-2 – Defnydd Misol Unedau yn ôl Lleoliad – Cartrefi Gwyliau Carafan (%)

	Lleoliadau arfordirol				Lleoliadau mewndirol			
	Defnydd Unedau Sefydlog (%)				Defnydd Unedau Sefydlog (%)			
	2006	2007	2008	2009	2006	2007	2008	2009
Ebrill	62	57	52	74	58	50	24	46
Mai	57	67	63	83	57	59	48	57
Mehefin	58	73	74	88	45	49	48	58
Gorffennaf	70	66	75	89	80	62	61	55
Awt	90	92	84	94	59	73	93	96
Medi	93	80	73	90	69	44	61	67
Hydref	58	56	36	85	26	43	41	46
Cyfartaledd Mai-Hydref	68	72	68	88	56	55	59	63

Dylid nodi fod maint y sampl, yn neilltuol ar gyfer cartrefi gwyliau mewn lleoliadau mewndirol, yn fychan felly mae angen gofal wrth ddehongli'r canlyniadau. Argymhellwn y gwneir cymariaethau rhwng cyfartaledd mis Mai i fis Hydref.


Bu cynnydd sylweddol mewn cyfraddau defnydd mewn lleoliadau arfordirol rhwng mis Mai a mis Hydref gan 20 pwynt canran o gymharu â'r un cyfnod yn 2008. Roedd hyn oherwydd cynnydd mewn poblogrwydd tripiau gwyliau domestig yn ystod y flwyddyn, yn neilltuoel i leoliadau glan môr. Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd cyfraddau defnydd yn ystod mis Hydref yn uchel iawn, fel yr adlewyrchir ar gyfer lleoliadau arfordirol yn y tabl uchod. Cynyddodd lefelau defnydd ar gyfer y mis o 36% yn 2008 i 85% yn 2009. Cofnododd lleoliadau mewndirol hefyd gynnydd bychan o 4 pwynt canran ar draws y cyfnod Mai i Hydref o gymharu â 2008.

Defnydd yn ôl Graddiad

Dadansoddwyd cyfraddau defnydd ar gyfer unedau yn ôl eu haelodaeth o Gynllun Graddiad Croeso Cymru. Oherwydd maint bach y sampl tu allan i gyfnodau brig yr haf o fis Mai - mis Hydref, cyflwynwyd gwybodaeth islaw yn seiliedig ar y cyfnod hwn. Dylid cymryd gofal wrth ddehongli'r canlyniadau oherwydd maint bach y sampl.

Mae Ffigur 7-6 islaw yn dangos cyfraddau cyfartalog blyneddol defnydd unedau yn ôl graddiad.

Ffigur 7-6 - Defnydd Cyfartalog Unedau Mai i Hydref yn ôl Graddiad - Cartrefi Gwyliau Carafan (%)



Cofnodwyd lefelau tebyg o ddefnydd ar gyfer cartrefi gwyliau carafan rhwng mis Mai a mis Hydref ar gyfer cartrefi sefydlog heb raddiad (72%) neu rai gyda graddiad pedair neu bum seren Croeso Cymru (69%).

Oherwydd maint bychan y sampl pan y'u dadansoddir yn ôl graddiad, fel mewn blyneddodd blaenorol, cyfunwyd llety 4-5 seren. Dylid nodi nad oedd gan unrhyw unedau yn arolwg eleni raddiad un neu ddwy seren ac mae dim ond dwy uned oedd â graddiad tair seren.

Mae Tabl 7-3 islaw'n rhoi dadansoddiad o'r cyfraddau defnydd misol yn ôl graddiad.

Tabl 7-3 – Defnydd Cyfartalog Misol Unedau yn ôl Graddiad – Cartrefi Gwyliau Carafan (%)

	Defnydd Unedau (%)		
	1-3 Seren	4-5 Seren	Heb raddiad
Ionawr	-	*	*
Chwefror	-	*	*
Mawrth	-	20	36
Ebrill	-	48	56
Mai	-	65	60
Mehefin	-	68	75
Gorffennaf	-	77	70
Awst	-	88	90
Medi	-	75	88
Hydref	-	50	51
Tachwedd	-	*	*
Rhagfyr	-	*	*
Cyfartaledd Mai - Hydref	-	71	72

* Maint sampl isel

Cofnodwyd cyfraddau defnydd neilltuol o uchel ar gyfer unedau heb raddiad yn ystod mis Ebrill. Mae'n debyg bod hyn yn adlewyrchu'r galw uwch am y math yma o lety yn ystod cyfnod gwyliau'r Pasg, oedd ym mis Ebrill yn 2009.

8. Carafannau Teithiol a Pharciau Gwersylla

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn rhoi sylw i barciau sy'n cynnig lleiniau ar gyfer carafannau teithiol a gwersylla. Mae'r elfen hon o'r arolwg yn cwmpasu cyfnod mis Ebrill i fis Hydref cynhwysol, gan ddangos fod y rhan fwyaf o'r safleoedd ar gau yn ystod misoedd y gaeaf.

Maint y Sampl

Mae tabl 8-1 islaw yn rhoi manylion lefelau ymateb i'r arolwg drwy gydol 2009. Mae'n dangos y nifer a ddychwelodd ffurflen yr arolwg bob mis a'r nifer gyda lleiniau ar gael ar gyfer eu gosod oedd yn ffurfio'r sampl ar gyfer ei ddadansoddi. Ni anfonwyd ffurflenni misol at weithredwyr y gwyddem fod eu hunedau ar gau yn ystod misoedd y gaeaf, ond cawsant eu cynnwys wrth gyfrif y lefel ymateb.

Tabl 8-1 – Maint Sampl – Parciau Carafannau Teithiol a Gwersylla


	Nifer parciau		
	Dychwelyd Ffurflen	Ar Gau	Sampl Dadansoddi
Ionawr	Dim ar gael	Dim ar gael	Dim ar gael
Chwefror	Dim ar gael	Dim ar gael	Dim ar gael
Mawrth	53	16	37
Ebrill	49	0	49
Mai	48	0	48
Mehefin	48	0	48
Gorffennaf	49	0	49
Awst	50	0	50
Medi	50	0	50
Hydref	33	0	33
Tachwedd	Dim ar gael	Dim ar gael	Dim ar gael
Rhagfyr	Dim ar gael	Dim ar gael	Dim ar gael
Cyfartaledd	48	2	46

Ar gyfartaledd, dychwelwyd 48 ffurflen bob mis, gan roi maint sampl cyfartalog o 46 i'w dadansoddi.

Defnydd Misol Unedau

Mae Ffigur 8-1 islaw'n cyflwyno cyfraddau defnydd tymhorol ar gyfer 2009 ar gyfer parciau carafannau teithiol a gwersylla. Oherwydd natur dymhorol y sector hwn, ychydig iawn o ffurflenni a dderbyniwyd y tu allan i'r prif dymor twristiaeth (Ebrill - Hydref), felly dim ond ar gyfer y prif dymor twristiaeth y cyflwynwyd canlyniadau misol a dylid gwneud cymariaethau ar draws y tymor yn seiliedig ar y golofn yn dangos y ffurflenni a ddychwelwyd ym mis Mai i fis Hydref.

Ffigur 8-1 – Defnydd Misol Unedau – Parciau Carafannau Teithiol a Gwersylla (%)




Cofnododd lefelau defnydd ar draws y prif dymor - Mai i Hydref - ostyngiad o 14 pwynt canran o gymharu â 2008. Dylid rhoi ystyriaeth i feintiau sampl cymharol fach y sector, ynghyd ag amrywiad posibl yn yr arolwg rhwng blynyddoedd, wrth gymharu data rhwng blynyddoedd. Hyd yn oed wedyn, mae'n amlwg na wnaeth y sector yma berfformio gystal â rhai o'r sectorau eraill llety heb wasanaeth yn ystod y flwyddyn. Yn 2009, ymddengys yn seiliedig o wybodaeth o arolygon eraill, fod cyfran uwch o bobl wedi cymryd gwyliau yn nes adref yn y Deyrnas Unedig drwy gydol y flwyddyn. Gall cymryd gwyliau domestig yn fwy lleol fod wedi effeithio ar y sector, gyda mwy o wersyllwyr a charafanwyr o Loegr yn cymryd eu gwyliau yn Lloegr yn hytrach na theithio i Gymru, gan effeithio ar barciau gwersylla a charafannau teithiol. Gall llifogydd yr haf hefyd fod wedi effeithio mwy ar barciau carafannau teithio a gwersylla na sectorau llety arall sy'n fwy dibynnol ar archebu ymlaen llaw.

Tueddiadau Rhanbarthol


